



Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol 2017-18

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



RHONDDA CYNON TAF

Cynnwys

04. Adran 1:
Cyflawni ein Blaenoriaethau 2016–17

06. Adran 2:
Cyflawni ar gyfer y dyfodol

07. Adran 3:
Ydyn ni'n cael hwyl arni?

08. Adran 4: **ECONOMI**
Adeiladu economi gref

13. Adran 5: **POBL**
Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb

19. Adran 6: **Lleoedd**
Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

24. Adran 7: **CYLLIDEB**
Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb

26. Adran 8: **EIN GWAITH**
Themâu pwysig sy'n sail i'n gwaith

Gweithio nawr er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cydraddoldeb

- Trosedd Casineb
- Amser i Newid Cymru
- Cyflogau'r Rhywiau
- Monitro

Y Gymraeg

Bioamrywiaeth

Sut rydyn ni'n gwranddo

Cynllunio'r Ffordd Ymlaen

Dyma Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor. Mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2017–18 a'n cyflawniadau yn 2016–17.

Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn chi ar yr adroddiad yma, am ein cynlluniau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau, a sut rydych chi wedi cael eich effeithio gan ein gwaith i wella gwasanaethau yn 2016–17.

Cysylltwch â ni:



- **Drwy'n gwefan:**
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/DweudEichDweud



- **Drwy Twitter:**
[@CyngorRhCT](https://twitter.com/CyngorRhCT) neu www.twitter.com/CyngorRhCT



- **Drwy Facebook:**
www.facebook.com/RCTCouncil



- **Drwy neges e-bost:**
CynllunCyflawni@rhondda-cynon-taf.gov.uk



- **Drwy ffonio:**
01443 680723



- **Drwy ysgrifennu aton ni:**
Gwasanaethau Rheoli Cyflawniad,
Tŷ Bronwydd, Y Porth CF39 9DL

- **Drwy anfon neges e-bost at y Garfan Ymgynghori:**
ymgynghori@rhondda-cynon-taf.gov.uk

- **Drwy ddod yn rhan o Banel y Dinasyddion:**
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/PanelDinasyddion

- **Drwy Hwb Ymgysylltu Cwm Taf:**
www.cwmtafhub.co.uk

- **Drwy'r cynllun 'Rhowch gymorth inni wella':**
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/adborth

- **Drwy'ch Cynghorydd lleol:**
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/cynghorwyr

- **Ydych chi'n awyddus i gymryd yr awenau gan y Cyngor am redeg cyfleuster neu wasanaeth?**
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk/RhCTGydanGilydd

Mae'r ddogfen yma ar gael mewn sawl iaith a diwyg ar gais.

4,6,13,17,18: images made by Freepix.com

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac, hefyd, amcanion llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I bob pwrpas, mae modd trin Amcanion Llesiant ac Amcanion Gwella yr un fath. Felly, drwy integreiddio'r prosesau ar gyfer pennu'r amcanion allweddol hyn, ac adrodd arnyn nhw, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y ddau faes deddfwriaeth.



Neges gan y Cyngorydd Andrew Morgan – Arweinydd y Cyngor

Croeso i Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys ein cyflawniadau y llynedd a'n cynlluniau ar gyfer cyflawni'n blaenoriaethau yn 2017/18. Mae'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth a byddwch chi'n gallu gweld drosodd chi'ch hun ydy'r Cyngor yn cael hwyl arni a beth yw barn yr archwilwyr annibynnol.

Gobeithio y cewch chi'r adroddiad yma'n ddefnyddiol a'i fod yn eich helpu chi i ddeall a herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae hefyd yn cynnwys cysylltiadau i adroddiadau a data mwy manwl ar gyfer y bobl hynny a fyddai'n hoffi cael rhagor o wybodaeth. Yn fwy na dim, rydw i'n gobeithio y byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth i ddweud wrthon ni am y pethau da rydyn ni'n eu gwneud yn ogystal â'r pethau y gallwn ni eu gwella.

Mae'r data ynghylch cyflawniad cyffredinol y Cyngor yn dweud wrthon ni ein bod ni'n dal i wella, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a bod llawer o'n gwasanaethau ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- gwneud yn siŵr fod plant yn ein gofal yn cael eu rhoi mewn llai na 3 lleoliad yn ystod y flwyddyn, gan ddod â mwy o sefydlogrwydd i'w bywydau;
- nifer yr oedolion dros 60 oed sy'n ddeiliaid pasiau bws, sy'n helpu pobl hŷn i deithio o gwmpas a chynnal eu hannibyniaeth;
- cynyddu cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei ailgylchu;
- cadw ein strydoedd yn lân;
- lleihau cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei gladdu;
- plant yn ein gofal yn gadael yr ysgol â chymwysterau;

Yn ogystal â'r newyddion cadarnhaol, rydyn ni'n gwybod bod meysydd i'w gwella, oherwydd bod ein cyflawniad ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys helpu i sicrhau bod pobl yn mynd adref yn ddiogel o'r ysbyty pan fyddan nhw'n ddigon iach. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi gweithio gyda'n partneriaid ym maes iechyd i sefydlu'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, ac mae'r canlyniadau'n edrych yn addawol yn barod.

Does gennym ni ddim digon o adnoddau ariannol erbyn hyn ar gyfer darparu popeth yr hoffem ni ei ddarparu. Serch hynny, mae modd i ni ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau sydd wedi eu hamlygu gan ein cymunedau, gan adeiladu ar y sylfeini cadarn rydyn ni wedi eu rhoi ar waith.

Y llynedd, cafodd ein cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau ei lleihau 0.9%, ac roedd rhaid i ni sicrhau arbedion o £17.515 miliwn i bennu cyllideb o £454.8 miliwn. Cafodd yr arbedion hyn eu sicrhau drwy ddulliau effeithlonrwydd, moderneiddio gwasanaethau, a lleihau costau rheoli. Drwy sicrhau arbedion yn y meysydd hyn, roedd modd i ni sicrhau bod cwtogi ar y gyllideb yn cael llai o effaith ar y gwasanaethau rheng flaen ar gyfer ein trigolion.

Roedd swm y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn yma yn well na'r disgwyl; drwy gynyddu 0.4%. Serch hynny, wrth i'r galw am wasanaethau – a'r costau – barhau i gynyddu, mae angen i ni sicrhau arbedion o £13.818 miliwn, bron, wrth bennu cyllideb o £458.94 miliwn ar gyfer 2017/18.

Yn ogystal â chynnal gwasanaethau, mae gennym ni gyllideb ar gyfer ariannu prosiectau cyfalaf. Mae ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017–20 yn werth £172.5 miliwn. Bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer adnewyddu adeiladau a chodi adeiladau newydd ar gyfer ysgolion, gwella'r priffyrdd, dyfarnu grantiau cyfleusterau i bobl anabl, a gwella ein canolfannau hamdden a mannau chwarae.

I fantoli'r gyllideb ac i wneud y defnydd gorau o'n harian ni, byddwn ni'n parhau i dargedu buddsoddi ar y prif flaenoriaethau rydych chi wedi eu hamlygu a gweithio gydag eraill i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfunol a sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer ein trigolion.

Mae'r adroddiad yma'n cynnwys llawer o enghreifftiau o'r Cyngor yn gweithio gydag eraill i sicrhau'r budd mwyaf ar gyfer ein trigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn brosiect allweddol mae Cyngor Rhondda Cynon Taf, a naw Cyngor arall yn ne-ddwyrain Cymru, yn rhan ohono. Bydd y Fargaen Ddinesig – sydd werth £1.2 biliwn – yn mynd ati i greu 25,000 o swyddi a denu buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn i hybu ffyniant economaidd y rhanbarth. Elfen allweddol o'r buddsoddiad yma yw Metro, sef gwasanaeth a fydd yn gwella mynediad at drenau a bysiau i bawb yn Rhondda Cynon Taf ac ar draws y rhanbarth. Bydd pencadlys y sefydliad a fydd yn goruchwylio Metro yn agor yn y datblygiad newydd ar safle hen Ganolfan Siopa Cwm Taf, Pontypridd, ac mae'r Fargaen Ddinesig eisoes yn cael ei rheoli o Drefforest.

I orffen, fyddai hi ddim yn bosibl i ni wneud unrhyw ran o'r gwaith yma heb ymroddiad parhaus y staff, cyngorwyr a phartneriaid. Hoffwn i gofnodi fy niolchiadau personol i bawb sy'n gweithio'n galed i wneud Rhondda Cynon Taf yn un o'r Cyngorau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru fel bod ein trigolion yn manteisio ar y gwasanaethau gorau posibl.

Rydw i'n gobeithio bydd yr Adroddiad ar Gyflawniad yma yn eich helpu chi i ddeall sut mae'r Cyngor yn mynd ati i ddelio â'r heriau a'r cyfleoedd mae'n eu hwynebu. Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn chi ar ein cynnydd a'n cynlluniau, ac ar yr hyn sy'n bwysig i chi. Rhowch eich syniadau ynglŷn â'r hyn y gallwn ni ei wneud i wella effaith gadarnhaol gwaith y Cyngor ymhellach.

A. Morgan

Y Cyngorydd Andrew Morgan
Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf

adran

1

Cyflawni ein Blaenoriaethau 2016–17

Ym mis Chwefror 2016, lansiodd y Cyngor ei **Gynllun Corfforaethol** ar gyfer 2016–2020, sef 'Y Ffordd Ymlaen'. Mae'r Cynllun yn rhoi'r trigolion wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn pennu cyfres o flaenoriaethau newydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf, y mae trigolion, aelodau o staff a phartneriaid wedi dweud wrthon ni sydd bwysicaf iddyn nhw. Yn bwysig, mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer popeth sydd angen i ni ei wneud yn y Cyngor, a chydag eraill, rhwng nawr a 2020, ac wedi cyflwyno newid yn niwylliant y Cyngor i sicrhau ein bod ni'n gwella trwy herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

Dyma'r blaenoriaethau sydd wedi eu hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol:



Economi
*Adeiladu
economi gref*



Pobl
*Hyrwyddo annibyniaeth a
bywydau cadarnhaol
i bawb*



Lleoedd
*Creu cymdogaethau mae
pobl yn falch o gael byw a
gweithio ynddyn nhw*

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn nodi'r egwyddorion allweddol y byddwn ni'n eu dilyn i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, sef:

- ▶ **Darparu gwasanaethau hanfodol yn dda**
- ▶ **Helpu pobl a chymunedau i'w helpu eu hunain**
- ▶ **Datblygu Bwrdeistref Sirol gynaliadwy**
- ▶ **Byw ar yr hyn sydd gyda ni**

Mae'r egwyddorion allweddol hyn yn gofyn i ni gynllunio'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn ofalus, fel ein bod ni'n gallu gweithio gydag eraill lle'r peth gorau yw gwneud hynny, a sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaethau fydd yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Ers 2016, rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran y cynlluniau rydyn ni wedi eu gweithredu i fynd i'r afael â'n tair blaenoriaeth. Mae'r Cynghorwyr wedi bod yn adolygu ac yn gwirio ein gwaith bob tri mis. Ar yr un pryd, mae adroddiadau wedi cael eu rhoi ar wefan y Cyngor fel bod modd i bawb weld y cynnydd drosto'i hunan. Rydyn ni bellach yn dod i ddiwedd y flwyddyn adrodd, felly, mae'r adroddiad yma'n cynnwys asesiad o'n cyflawniad yn y tair blaenoriaeth yma yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r gwahaniaeth mae ein gwaith wedi ei wneud i'r bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf, ac yn ymweld â hi.

Bydd tair blaenoriaeth y Cyngor ar waith tan 2020. Serch hynny, mae dull cyflawni'r blaenoriaethau hyn, ein targedau, a'r camau nesaf, wedi cael eu hadnewyddu yn rhan o'r cynlluniau rydyn ni'n eu rhoi ar waith ar gyfer 2017/18.

O edrych ymlaen at 2017/18, rydyn ni wedi manteisio ar y cyfle i adnewyddu'r agweddau hynny ar ein Cynllun Corfforaethol sydd wedi newid, neu sydd wedi symud ymlaen, ers ei gyflwyno yn 2016. Mae'n cynnwys rhoi ystyriaeth i ofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant cenedlaethol, sef:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnherth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Cyngor, drwy ei Gynllun Corfforaethol a'i dair blaenoriaeth, mewn lle da i fodloni ei ddyletswyddau o ran cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cryfhau pa mor gynaliadwy mae angen i ni fod drwy fynnu i ni weithio'n wahanol, lle dydyn ni ddim yn gwneud hynny yn barod. Mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael eu disgrifio yn y Ddeddf fel y bum ffordd o weithio, sef:

1. Cydbwysio anghenion y tymor byr gyda'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol
2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni ein blaenoriaethau
3. Cynnwys personau eraill sydd â diddordeb a cheisio eu barn
4. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
5. Ystyried sut mae'r nodau llesiant yn effeithio ar y cyrff eraill hynny

Mae'r pum dull gweithio yma yn gorfodi cyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, i feddwl mwy am gynlluniau hirdymor; i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a chymdeithasol; i geisio atal problemau; ac i fabwysiadu dull mwy cydgyssylltiedig wrth gyflawni'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Rydyn ni o'r farn bod gwaith y Cyngor ynglŷn â'i flaenoriaethau presennol – sef Economi, Pobl, a Lleoedd – yn gyson â'r meini prawf Datblygu Cynaliadwy, a byddan nhw'n helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Rhondda Cynon Taf, a byddan nhw hefyd yn bodloni'r saith nod llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad i hyn, cafodd y themâu – Economi, Pobl, a Lleoedd – eu cydnabod a'u mabwysiadu yn ffurfiol gan y **Cabinet ym mis Mawrth 2017** fel Amcanion Llesiant y Cyngor.

Yn ei Gynllun Strategol drafft, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi nodi pedair blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg, a bydd angen i bob corff cyhoeddus – gan gynnwys Cyngor Rhondda Cynon Taf – fynd i'r afael â nhw, sef:

1. Newid economaidd
2. Newid yn y boblogaeth
3. Newid hinsawdd
4. Ymddieithriad dinasyddion

Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol eisoes wedi dechrau ystyried y materion hyn. Er enghraifft, bydd ein gwaith o ran aildrefnu darparu gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i ymateb i'r heriau sy'n deillio o newidiadau yn ein poblogaeth. Mae ein gwaith yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i adeiladu economi sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ein gwaith i leihau cyfran y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, integreiddio o ran datblygiadau busnes a thai â chynllunio trafndiaeth yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Hefyd, rydyn ni drwy'r amser yn ystyried gwella'r ffyrdd rydyn ni'n siarad â'r trigolion, a gwranddo arnyn nhw; byddwch chi'n gweld y thema yma drwy'r holl waith rydyn ni'n ei ddisgrifio yn yr adroddiad yma.

Rydyn ni o'r farn mai'r ffordd orau o fodloni ein hymrwymadau o ran y Ddeddf yw drwy sicrhau bod y gofynion yn rhan annatod o fusnes y Cyngor, yn hytrach na bod yn faterion ar wahân. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio ei hegwyddorion i barhau i gryfhau ein cynlluniau, er enghraifft, o ran manteision trafndiaeth i Gymru lewyrchus, rheoli ein mannau gwyrdd yn well, a gwella bioamrywiaeth ac effaith addysg a chyflogaeth ar Gymru iachach. Cafodd ei gadarnhau gan y Cabinet ym mis **Tachwedd 2016** pan gafodd Datganiad Polisi, yn pennu ein dull gweithio, hefyd ei dderbyn.

Mae eisoes enghreifftiau da ar draws y Cyngor sy'n dangos ein bod ni'n gweithio mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys **gweithio gyda phartneriaid eraill** – er enghraifft, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – ac mae modd i ni ddangos sut rydyn ni'n bodloni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Byddwch chi'n gweld llawer mwy o enghreifftiau yn yr adroddiad yma. Serch hynny, mae angen i ni adeiladu ar y sylfeini cadarnhaol hyn.

adran

2

Cyflawni ar gyfer y dyfodol

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu rhaid i'r Cynghorwyr wneud dewisiadau a phenderfyniadau anodd fel y gall y Cyngor flaenoriaethu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed, wrth barhau i sicrhau'r arbedion sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb.

Mae strwythurau newydd y pwyllgorau, a chanolbwyntio'n barhaus ar ddull cefnogi a herio ar draws y Cyngor, wedi helpu'r Cynghorwyr i ddeall yn well yr hyn y gallan nhw ei ddisgwyl gan reolwyr ac aelodau o staff wrth ddarparu gwasanaethau.

Rydyn ni'n **parhau i adolygu pob gwasanaeth** rydyn ni'n ei ddarparu, a phopeth rydyn ni'n ei wneud, fel bod modd i ni ymateb yn gyflym i newid a pharhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd ag adnoddau sy'n lleihau, gan gynnwys llai o reolwyr ac aelodau o staff. Rydyn ni'n siarad mwy â'n trigolion, o bob oed, i gael gwybod am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac i geisio eu syniadau a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella. Rydyn ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig drwy weithio gydag eraill lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Drwy edrych ar (a herio) yr hyn rydyn ni'n ei wybod am ein gwasanaethau ac anghenion ein trigolion a'n cymunedau, heddiw ac yn y dyfodol, bydd modd i ni ddeall yn well yr hyn rydyn ni angen ei wella a sut mae gwneud hynny, er mwyn canolbwyntio ar wella'r hyn sy'n bwysig. Drwy wneud hyn, bydd modd i ni sicrhau bod modd diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ystod 2016, yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf, buon ni'n gweithio gyda phartneriaid i greu dau Asesiad allweddol.

Diben **Asesiad Llesiant Cwm Taf** yw rhoi darlun o gyflwr presennol llesiant yn ardal Cwm Taf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y bobl a'r cymunedau yn ardal Cwm Taf, yn ogystal â sylwadau'r bobl ar yr hyn mae llesiant yn ei olygu iddyn nhw.

Bydd **Asesiad Poblogaeth Cwm Taf** yn helpu Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful, a'u partneriaid, i ddeall mwy am wasanaethau ac anghenion cymorth a gofal yn ardal Cwm Taf, yr hyn sydd gennym yn barod, yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a'r hyn mae angen i ni ei wella.

Yn ystod 2017/18, bydd canfyddiadau'r Asesiadau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer paratoi Cynlluniau ar wahân a fydd yn dangos yr hyn y bydd cyrff cyhoeddus ar draws ardal Cwm Taf yn ei wneud i ddiwallu anghenion trigolion drwy weithio gyda'i gilydd yn well. Yn ogystal â llywio'r cynlluniau ar gyfer y rhanbarthau yn ardal Cwm Taf, rydyn ni hefyd yn defnyddio'r wybodaeth o'r Asesiadau ar gyfer llywio'r hyn rydyn ni'n ei wneud fel Cyngor.



Sylwadau'r Rheoleiddiwr...

Yn ôl yr adroddiad diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru, ym mis **Mehefin 2017**, “mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus” ac mae:

- trefniadau ar waith sy'n debygol o helpu i wneud gwelliannau parhaus;
- wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynglŷn â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau;
- trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Rydyn ni'n gwybod bod cyfleoedd i wella ein cyflawniad ymhellach mewn rhai achosion, ond, yn 2016, Cyngor Rhondda Cynon Taf oedd y Cyngor a oedd wedi gwella'r mwyaf yng Nghymru yn ôl y **Bwletin Perfformiad Blynyddol gan Uned Ddata Cymru**.

adran

3

Ydyn ni'n cael hwyl arni?

Yn 2015/16, roedd ein data'n dangos gwelliant yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, a doedd dim ond tri Chyngor arall yng Nghymru wedi rhagori ar Gyngor Rhondda Cynon Taf o ran gwella. Serch hynny, er gwaethaf y gwelliannau, mewn rhai gwasanaethau roedden ni yn y chwarter isaf yng Nghymru ac roedd angen i ni wneud yn well.

Cymharu ein cyflawniad â gweddill Cymru:

Fe gymharon ni ein cyflawniad yn 2016–17 â data Cymru gyfan ar gyfer 2015–16, sef y data diweddaraf sydd ar gael. Mae cymharu ein 28 dangosydd, lle mae hynny'n bosibl, yn dangos:



Ein bod ni ymhlith y gorau yng Nghymru (Chwarter Uchaf) ar gyfer:

1. gwneud yn siŵr fod plant yn ein gofal yn cael eu rhoi mewn llai na tri lleoliad yn ystod y flwyddyn, gan ddod â mwy o sefydlogrwydd i'w bywydau;
2. nifer yr oedolion dros 60 oed sy'n ddeiliaid pasiau bws, sy'n helpu ein trigolion hŷn i fyw'n annibynnol;
3. glendid ein priffyrdd sy'n cael eu harchwilio;
4. lleihau cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei anfon i safleoedd tirlenwi;
5. cynyddu cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei ailgylchu;
6. nifer y plant 15 oed dan ofal yr awdurdod lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol wedi ei gymeradwyo.



Rydyn ni angen gwella (Chwarter Isaf):

1. nifer yr ymweliadau â'n llyfrgelloedd cyhoeddus;
2. faint o amser mae'n ei gymryd i helpu pobl i adael yr ysbyty a dychwelyd i'w cartrefi neu gartrefi gofal;
3. presenoldeb disgyblion yn yr ysgol gynradd;
4. prydlondeb o ran cyhoeddi datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Serch hynny, mae ein trigolion yn cael defnyddio gwasanaeth heb ddatganiad, sydd ddim yn ymddangos yn y ffigurau cenedlaethol.

Sylwer: Mae'r set ddata genedlaethol a gafodd ei defnyddio ar gyfer llywio'r uchod wedi lleihau ers 2016. Mae nifer y dangosyddion cenedlaethol mae modd i ni eu cymharu wedi gostwng o 41 yn 2015/16 i 28 yn 2016/17. Ymhlith y data sydd ddim yn cael ei gasglu bellach mae'r dangosyddion a oedd yn dangos bod y Cyngor ymhlith y gorau yng Nghymru, gan gynnwys asesu anghenion ein cynhalwyr, disgyblion sy'n gadael yr ysgol â chymwysterau, a chodi tipio anghyfreithlon o fewn pum diwrnod.



Wrth grynhoi:



Roedden ni yn y chwarter uchaf yng Nghymru ar gyfer chwech o ddangosyddion.



Roedden ni yn y chwarter isaf yng Nghymru ar gyfer pedwar o ddangosyddion.



Cyrhaeddodd ni 13 o'n targedau cyflawniad ein hunain, er bod ein cyflawniad yn y chwarter isaf yng Nghymru ar gyfer dau ohonyn nhw.




Fe wellon ni ein cyflawniad mewn 16 o ddangosyddion.



Dirywiodd ein cyflawniad ar gyfer wyth o ddangosyddion.

I gael llawer rhagor o wybodaeth am ein cyflawniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac i weld yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn, ewch i **Cyflawniad Cyngor Rhondda Cynon Taf**.

Drwy gydol yr adroddiad yma, rydyn ni wedi cymharu ein cyflawniad yn ystod 2016/17 â phob cyngor yng Nghymru drwy ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer Cymru gyfan yn 2015/16. Pan fydd gwybodaeth Cymru gyfan ar gyfer 2016/17 ar gael ym mis Medi, byddwn ni'n rhoi cymhariaeth fwy diweddar i'r Cynghorwyr yn rhan o'n hadroddiadau **cyflawniad rheolaidd**, ac yn rhoi'r wybodaeth ar ein gwefan. Mae rhagor o fanylion am sut mae cynghorau Cymru yn cymharu â'i gilydd ar **Fy Nghyngor Lleol**.



ECONOMI:

Adeiladu
economi gref

ECONOMI

Adeiladu economi gref

Gwybodaeth allweddol am Rondda Cynon Taf

- Roedd 5,900 o bobl (5.3%) yn ddi-waith yn ystod y flwyddyn tan fis Rhagfyr 2016 o'i gymharu â 6,900 o bobl (6.1%) yn y flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae diweithdra yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru (4.6%).
- Roedd 14,500 o aelwydydd heb waith (18.4%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (18.3%) a'r Deyrnas Unedig (15.3%).
- Mae dros 2,818 o anheddau yn y sector preifat wedi bod yn wag am fwy na chwe mis.
- Mae 72% o'r boblogaeth leol yn rhan o hanner mwyaf difreintiedig poblogaeth Cymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Mae 17% o'r oedolion naill ai heb gymwysterau neu â chymwysterau islaw lefel TGAU.
- Mae 12.6% o'r plant yn byw mewn aelwyd heb waith.
- Rydyn ni'n cau'r bwlch rhwng disgyblion sydd â'r hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r disgyblion eraill yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, ond, mae'r bwlch wedi parhau i dyfu yn CA3 (21.2 i 21.7) ac yn dal i fod yn fwch llydan yn CA4 (32.0%).

Yn 2016, dywedon ni y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i adeiladu economi gref.

Roedd 2016/17 yn gadarnhaol iawn. Yn ystod y flwyddyn:

- mae'r Cyngor, a naw Cyngor arall yn ne-ddwyrain Cymru, wedi ymuno ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fynd ati i greu 25,000 o swyddi a denu buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn;
- rydyn ni wedi chwarae rhan allweddol mewn prosiectau yng nghanol y dref – Pontypridd ac Aberdâr – gan gynnwys datblygu safle hen Ganolfan Siopa Cwm Taf a Gwesty'r Boot, â chyfartaledd nifer yr ymwelwyr wythnosol â'r ddwy dref yn cynyddu yn ystod y flwyddyn;
- cafodd 716 o gartrefi newydd eu rhyddhau i'r farchnad, cafodd 241 o gartrefi fforddiadwy eu hadeiladu, a chafodd 138 o eiddo gwag eu defnyddio eto;
- mae cyflawniad addysgol ym mhob Cyfnod Allweddol yn parhau i wella, gyda'r canlyniadau TGAU gorau erioed ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, ac rydyn ni wedi parhau i fuddsoddi miliynau o bunnoedd mewn ysgolion newydd;
- mae nifer y bobl ifainc 16 oed sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Rhondda Cynon Taf wedi gostwng i 1%, sef yr isaf yng Nghymru.

Serch hynny, mae heriau arwyddocaol o'n blaenau ni, yn enwedig o ran sicrhau:

- bod pob disgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gallu cyflawni ar yr un lefel â'r disgyblion eraill;
- ein bod ni'n gostwng nifer yr unedau manwerthu gwag yng nghanol ein trefi, ac yn parhau i annog trigolion i gefnogi busnesau yng nghanol y dref.

Mae rhagor o fanylion am ein cynnydd mewn perthynas â'r hyn roedden ni'n ceisio ei gyflawni yn 2016/17 yn ein Gwerthusiad Cyflawniad. Mae'n cynnwys sut mae Rhondda Cynon Taf yn cyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol ac, yn benodol, at Gymru lewyrchus.

Sicrhau bod trigolion yn gweld dull cyfrifol o ran adfywio, gyda chartrefi newydd yn cael eu hadeiladu a chyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu...

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- gweithio gyda chynghorau eraill i wireddu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan ddod â buddsoddiad a swyddi i'r rhanbarth, sydd werth £1.2 biliwn. Ymhlith y datblygiadau hyd yma, sy'n effeithio yn uniongyrchol ar y fwrdeistref sirol, mae sefydlu pencadlys ym Mhontypridd ar gyfer y sefydliad a fydd yn goruchwyllo Metro, a Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig yn Nhrefforest.
- gweithio gyda busnesau, a rhoi cymorth iddyn nhw, gan gynnwys eu helpu nhw i greu swyddi. Mae'r data'n awgrymu ein bod ni wedi creu llai o swyddi na'r disgwyl, ond, gallai fod yn gamarweiniol oherwydd bod gan fusnesau chwe mis i greu swyddi ac, mewn rhai achosion, dydy hynny ddim wedi cael ei gwblhau mewn pryd i gael ei gynnwys yn y nifer derfynol.
- rhoi bywyd newydd i eiddo gwag yn sgil cyngor, grantiau a benthyciadau, yn ogystal â chymorth gorfodi, ond nid cynifer â'r disgwyl oherwydd bod peth o'r gwaith wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, felly, cymerodd fwy o amser i'r trigolion symud i mewn i'r tai.
- cyflawni mwy o dai ac unedau llety na'r disgwyl. Mae'r gwaith yma, ynghyd â mynd i'r afael ag eiddo gwag, wedi darparu cartrefi newydd ar gyfer trigolion o bob oed a hefyd wella golwg ardaloedd ar draws Rhondda Cynon Taf.

Ers y llynedd mae nifer y bobl sy'n ymweld â chanol ein trefi wedi amrywio, gyda nifer yr ymwelwyr yn cynyddu ym Mhontypridd ac Aberdâr, ond yn gostwng yn y Porth a Threorci.



Pontypridd	8.8% eiddo manwerthu gwag	↑ 64,647 yn fwy o ymwelwyr
Aberdâr	10.4% eiddo manwerthu gwag	↑ 23,465 yn fwy o ymwelwyr
Y Porth	14.0% eiddo manwerthu gwag	↓ 11,037 yn llai o ymwelwyr
Treorci	5.8% eiddo manwerthu gwag	↓ 15,516 yn llai o ymwelwyr

Yn ôl y trigolion...

- Mae angen meinciau i bobl gael eistedd.
- Dylai fod parcio am ddim ym maes parcio Heol Sardis i annog pobl i fynd i'r dref ac i helpu busnesau.
- Mae angen rhagor o fysiau gyda'r hwyr.
- Mae gormod o eiddo rhent preifat, sydd ddim yn destun gwaith cynnal a chadw.
- Mae cau'r banciau wedi cael effaith anffafriol ar ganol ein trefi.

Mae nifer y siopau gwag yng nghanol ein trefi yn fwy na'r disgwyl, yn enwedig yn Aberdâr a'r Porth, a bu hefyd ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r Porth. Rydyn ni'n parhau i edrych ar ddulliau sy'n helpu i gynnal busnesau yng nghanol ein trefi, a bydd hynny'n parhau yn 2017/18. Rydyn ni hefyd wedi ymateb i adborth gan drigolion ac wedi cyflwyno parcio am ddim neu gostau parcio rhatach ar draws y Fwrdeistref Sirol.



Cafodd 241 o gartrefi fforddiadwy newydd eu cyflawni, sy'n fwy nag roedden ni'n ei ddisgwyl



Cafodd 138 o eiddo gwag eu defnyddio eto, sy'n llai nag roedden ni'n ei ddisgwyl.

HOME STEP - Cartrefi newydd sbon am bris fforddiadwy

Mewn arolwg o'r rhai a oedd yn prynu tŷ am y tro cyntaf, ac sydd wedi gallu gwneud hynny trwy'r cynllun 'Homestep', medden nhw ei fod yn gynllun ardderchog a bydden nhw'n ei argymhell i bobl eraill.

"Fyddwn i ddim yn gallu fforddio prynu tŷ ar fy mhen fy hun heb gymorth gan 'Homestep'."

"Cafodd y cyfweiliad ar gyfer y broses ei gynnal yn swyddfa'r safle, felly, roedd cyfle i mi weld y cynlluniau i gyd a gofyn cwestiynau i'r datblygwyr yn y fan a'r lle."

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- parhau i arwain a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi prosiectau'r Fargen Ddinesig i ddod â buddsoddiad, trafndiaeth well, tai a swyddi i'r rhanbarth;
- parhau i wella canol ein trefi, gan gynnwys bwrw ymlaen â gwaith datblygu safle hen Ganolfan Siopa Cwm Taf;
- cefnogi datblygiadau tai newydd a rhoi bywyd newydd i eiddo gwag;
- gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Rhondda Cynon Taf fel cyrchfan i ymwelwyr.


Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- byddwch chi'n gweld trefniadau'r Fargen Ddinesig yn symud ymlaen;
- bydd busnesau/sefydliadau yn cael eu cefnogi drwy gymorth grant;
- byddwn ni'n parhau i gyflenwi tai fforddiadwy a rhoi bywyd newydd i eiddo gwag;
- byddwn ni wedi lansio Cymdeithas Twristiaeth a Hyb Rheoli Cyrchfan Rhondda Cynon Taf.

Sicrhau bod ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau yn y wlad, a bod y plant i gyd yn cyflawni eu gorau glas...


Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- parhau i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol yn ein hysgolion, gyda mwy o Benaethiaid a Dirprwyon yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar arwain, ac ysgolion hefyd yn rhannu'r arferion gorau er mwyn iddyn nhw i gyd wella;
- gweithio gyda Chonsortium Canolbarth y De i ddatblygu ffyrdd sy'n cefnogi plant dan anfantais, fel bod modd iddyn nhw gyflawni hyd eithaf eu gallu a chau'r 'bwllch' rhyngddyn nhw a'u cyd-ddisgyblion;
- parhau i gefnogi llesiant plant a phobl ifainc yn ein hysgolion, a'u helpu nhw i oresgyn rhwystrau i fynychu'r ysgol ac i gymryd rhan mewn dysgu, sy'n cynnwys rhoi cymorth iddyn nhw o ran sgiliau bywyd i'w helpu nhw i ddysgu, er enghraifft, arferion cysgu a bwyta, a rheoli emosiynau;
- parhau i fuddsoddi mewn gwella cyfleusterau ac adeiladau ysgolion i ddarparu amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain – mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn yr ysgolion i ddisgyblion o bob oed yn Nhonyrefail, y Porth a Threorci, ac mae adeilad newydd wedi ei gwblhau yn Ysgol Gyfun y Pant. Mae gwaith paratoi yn mynd yn ei flaen ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llywncelyn ac Ysgol Gyfun Glynrhedynog, ac ysgol gynradd newydd yng Nghwmaman.




Llwyddodd 57.1% o ddisgyblion Blwyddyn 11 (16 oed, fel arfer) i ennill 5 TGAU gradd A* i C, yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys mwy o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Dyma'r canlyniad gorau erioed ar gyfer ysgolion y Cyngor, ond, rydyn ni'n parhau i osod targedau uwch, a herio a chefnogi ysgolion os yw'r canlyniadau'n is na'r disgwyl.



Llwyddodd 30.9% o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ym Mlwyddyn 11 (16 oed, fel arfer) i gyflawni trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A*–C mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, a Mathemateg..



14.4% oedd y bwllch yn y Cyfnod Sylfaen rhwng y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u cyd-ddisgyblion. Mae mwy o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen, sydd wedi lleihau'r bwllch ers y llynedd.

Arwain a Rheoli yn ein hysgolion

Mae Ysgol Gyfun y Pant yn ysgol Saesneg ar gyfer disgyblion 11–18 oed. Mae 1,271 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae swyddogaethau'r uwch dîm arwain wedi cael eu diwygio yn ddiweddar i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol yn well. Mae'r ysgol wedi sefydlu swyddogaethau arweiniol strategol ysgol gyfan i ddarparu arweinwyr gael datblygu eu sgiliau arwain a bod o gymorth i'r uwch dîm arwain mewn meysydd blaenoriaeth. Mae'r arweinwyr canol yn deall eu swyddogaethau'n dda ac mae penaethiaid adrannau yn gweithio gydag uwch arweinwyr i ddatblygu eu meysydd cyfrifoldeb mewn modd medrus i godi safonau.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain data gwell i fonitro cynnydd mewn perthynas â'i thargedau gwella, er enghraifft, targedau cyrhaeddiad ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r data i werthuso cyflawniad yr athrawon ac i ymdrin â thangyflawni mewn modd sensitif, cadarn a llwyddiannus, fel cafodd ei amlygu yn yr arolygiad diweddar gan Estyn. Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd i athrawon wella eu sgiliau, gan gynnwys cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, sydd o fudd i'w harferion nhw eu hunain ac i arferion eu cydweithwyr.

Yn ôl yr arolygiad diweddar gan Estyn, roedd arweinyddiaeth yn yr ysgol yn rhagorol. Yn ôl yr adroddiad:

“Senior leaders have developed a strong ethos of improving practice and high expectations. This includes a very good emphasis on professional learning, that results in highly consistent and effective classroom practice.”

Mae Estyn wedi gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig sy'n disgrifio'r arferion gorau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr arolygiad.

[Daw gwybodaeth yr astudiaeth achos o'r adroddiad ar Ysgol Gyfun y Pant gan Estyn.](#)

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- cryfhau ein gwaith i sicrhau cysondeb o ran ansawdd addysgu a dull ymdrin ag absenoldeb disgyblion ar draws holl ysgolion Rhondda Cynon Taf;
- parhau i ganolbwyntio ar godi safonau a chau'r bwllch cyrhaeddiad rhwng plant dan anfantais a'u cyfoedion;
- cwblhau gwaith gwella ac/neu ehangu ysgolion uwchradd Treorci, Tonypany, Tonyrefail, Glynrhedynog a'r Porth, ysgolion cynradd Cymraeg Tonyrefail a Llywncelyn, Ysgol Gynradd y Cymer, ac adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghwmaman;
- parhau i fuddsoddi mewn gwella adeiladau ysgolion a cheisio arian ychwanegol fel bod modd i ragor o ddisgyblion ar draws Rhondda Cynon Taf fanteisio ar gyfleusterau gwell, gan gynnwys cynyddu nifer y lleoedd mewn addysg Gymraeg lle mae galw mawr amdani;

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd mwy o ddisgyblion yn cyflawni 5 TGAU gradd A* i C sy'n cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys mwy o'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- bydd mwy o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd y deiliant disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gan leihau'r bwllch cyrhaeddiad rhyngddyn nhw a'u cyd-ddisgyblion;
- bydd y bwllch presenoldeb rhwng y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn lleihau.

Cynnig amrywiaeth eang o raglenni cyflogaeth a sgiliau ar gyfer pob oed...

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- gweithio gyda phartneriaid, y sector cyhoeddus a'r sector preifat trwy'r rhaglen 'Llwybrau at Gyflogaeth' i helpu 530 o bobl i gael hyfforddiant penodol ar gyfer swyddi sydd ar gael yn yr ardal;
- helpu 180 o oedolion i wella eu llythrennedd, eu rhifedd a'u sgiliau llythrennedd digidol trwy ein rhaglenni paratoi ar gyfer cyflogaeth;
- trefnu amrywiaeth o gyrsiau cyflogadwyedd ar gyfer dysgwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf;
- cyflwyno trefniadau ar gyfer cynnal y rhaglen 'Ysbrydoli i Weithio' gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop y flwyddyn nesaf i helpu pobl ifainc i gael swyddi;
- darparu prentisiaethau, hyfforddeiaethau, rhaglen i raddedigion a phrofiad gwaith yn y Cyngor i helpu pobl ifainc i ddatblygu gyrfa.


Sylwadau'r prentisiaid...

"Mae cael fy nerbyn yn brentis wedi newid fy mywyd. Roeddwn i'n dymuno cael hyd i rôl oedd yn gweddu'n union i'm sgiliau a phersonoliaeth, ac yn fodd i mi gynorthwyo eraill."


"Llwyddo i ennill cymwysterau doeddwn i ddim erioed yn meddwl byddwn i'n eu cael..."

"Rydw i bob tro wedi cael cymorth ers i mi ddechrau yma, a ches i gyfle i barhau fy astudiaethau..."

Mae hyn wedi caniatáu i mi ddatblygu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac rydw i, felly, ar y trywydd iawn i gyrraedd y nod yn fy ngyrfa."



Doedd 0.1% o bobl ifainc 16 oed (Blwyddyn 11) adeg gadael yr ysgol ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.



Doedd 50.0% o bobl ifainc adeg gadael y system ofal ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ymhen 12 mis ar ôl gadael y system ofal, sy'n cynyddu i 53.3% ar ôl 24 mis.

Mesur newydd – dim data cymharol

Helpu pobl i gael swyddi

Roedd D heb weithio ers dros 12 mlynedd oherwydd llawer o rwystrau, gan gynnwys bod yn rhiant unigol, materion iechyd meddwl, a diffyg hyder a hunan-barch. Siarodd D â'r swyddog 'Llwybrau at Gyflogaeth' yn ystod diwrnod gwybodaeth mewn canolfan waith leol. Ar ôl trafodaeth drwyadl, a threulio amser yn ystyried yr opsiynau, aeth D i'r sesiwn ymsefydlu ar gyfer un o gyrsiau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn ystod y sesiwn ymsefydlu, aeth D ati i gwblhau asesiad llythrennedd a rhifedd, a chael cyfweiliad byr, cyn dechrau'r rhaglen hyfforddi. Ar ôl y sesiwn ymsefydlu, bu'n llwyddiannus mewn cyfweiliad ffurfiol â Rheolwr y Banc Nyrssys, gan roi hwb i'w hunanhyder. Erbyn hyn, mae D wedi dechrau ei hyfforddiant mewnol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac, ar ôl hynny, bydd hi'n ymuno â'r banc nyrsys ac yn cael gwaith am dâl.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- rhoi cymorth i bobl ifainc sy'n agored i niwed, ac sy'n anodd eu cyrraedd, i gael swyddi, gan ddefnyddio'r rhaglen 'Ysbrydoli i Weithio' gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ychwanegu at ein gwaith;
- rhoi cymorth i ragor o oedolion sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar i wella eu sgiliau, i ennill cymwysterau, ac i feithrin sgiliau ar gyfer swyddi penodol;
- parhau i ddarparu amrywiaeth o opsiynau ar draws y Cyngor a fydd yn helpu pobl ifainc i ddatblygu gyrfa, gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, rhaglenni i raddedigion a phrofiad gwaith;
- darparu gofal plant ychwanegol ar gyfer rhai plant 3 oed a 4 oed, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i fod o gymorth i deuluoedd sy'n gweithio a helpu rhieni sydd ddim yn gweithio i gael swyddi;
- cyflwyno cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, cyflogaeth a hyfforddiant yn rhan o'r prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd llai o bobl ifainc 16 oed a 18 oed yn gadael yr ysgol a pheidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- byddwn ni'n parhau i helpu oedolion a phobl ifainc i gael swyddi a chymorth Cymunedau am Waith;
- bydd pobl yn ennill cymwysterau ac yn cael swyddi â chymorth Cymunedau yn Gyntaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i 'Adeiladu economi gref' yn ein cynllun **ECONOMI 2017/18**. Bydd ein gwaith yn galluogi Rhondda Cynon Taf i gyfrannu at adeiladu economi gref ar draws y Fwrdeistref Sirol, Cymru lewyrchus a nodau llesiant cenedlaethol eraill.




POBL:
Hyrwyddo annibyniaeth a
bywydau cadarnhaol i
bawb

POBL

Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb

Gwybodaeth allweddol am Rondda Cynon Taf

- Mae gan Rondda Cynon Taf y disgwyliad oes isaf yng Nghymru – 76.9 oed i ddyinion ac 80.6 oed i fenywod. Disgwyliad oes iach yw 61.2 oed i ddyinion a 62.6 oed i fenywod.
- Mae gan 94.1% o oedolion 60 oed neu'n hŷn gerdyn teithio rhatach, sy'n eu helpu nhw i deithio o gwmpas a chynnal eu llesiant.
- Mae 12.6% o'r plant yn byw mewn aelwyd heb waith.
- Mae 71.9% o'r plant yn y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael prydau ysgol am ddim, wedi cyflawni'r safon ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 – 7 oed, fel arfer).
- Mae 62% o'r atgyfeiriadau i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ardal Cwm Taf yn gysylltiedig ag alcohol, ac mae 38% yn gysylltiedig â sylweddau.



Yn 2016, fe ddywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb.

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd yn ein gwaith ar gyfer y flaenoriaeth POBL, fel Cyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach. Yn ôl mesur cyflawniad, rydyn ni ymhlith y gorau yng Nghymru o ran:



gwneud yn siŵr fod plant yn ein gofal yn cael eu rhoi mewn llai na 3 lleoliad yn ystod y flwyddyn, gan ddod â mwy o sefydlogrwydd i'w bywydau;



nifer y bobl ifainc yn ein gofal sy'n gadael yr ysgol â chymwysterau wedi eu cymeradwyo.

Serch hynny, rydyn ni'n gwybod bod angen i ni helpu pobl i adael yr ysbyty a mynd adref neu i gartref gofal yn gynt pan fyddan nhw'n ddigon iach, a magu eu hyder i ymdopi'n well yn eu cartrefi. Bydd ein gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar yn helpu i ostwng nifer ein trigolion hŷn sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal. Mae ein cyfleuster gofal ychwanegol newydd, Tŷ Heulog yn Nhonysguboriau, wedi rhoi mwy o annibyniaeth i'w preswylwyr, a sicrwydd i'w teuluoedd. Mae'r dull ataliol yma hefyd yn helpu plant i aros gyda'u teuluoedd, er bod nifer y plant yn ein gofal yn parhau i gynyddu.

Rydyn ni wedi parhau i fynd i'r afael â materion pwysig eraill a fydd yn cymryd llawer mwy o amser i'w datrys, er enghraifft:

- helpu plant i symud ymlaen i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion;
- mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau;
- lleihau effaith tlodi, gan gynnwys tlodi tanwydd;
- atal trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn canolbwyntio ar fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac, ar y cyd â'n partneriaid, rydyn ni wedi cwblhau asesiad helaeth o **anghenion y boblogaeth** yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o ardal ehangach Cwm Taf. Mae'r asesiad poblogaeth yn darparu llawer iawn o wybodaeth am anghenion ein cymunedau. Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn ni'n canolbwyntio ar baratoi cynllun fel bydd modd i ni flaenoriaethu'r hyn mae angen ei wneud yn ardal Cwm Taf.

*Mae rhagor o fanylion am ein cynnydd mewn perthynas â'r hyn roedden ni'n ceisio ei gyflawni yn 2016/17 yn ein **Gwerthusiad Cyflawniad**. Mae'n cynnwys sut mae Rhondda Cynon Taf yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol ac, yn benodol, at Gymru lewyrchus.*

Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu personoli a'u hintegreiddio, gyda rhagor o bobl yn cael eu cefnogi i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- gweithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys:
 - cwblhau'r newidiadau cynlluniedig ar gyfer y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'n golygu sicrhau bod gan drigolion lais a rheolaeth go iawn ar eu bywydau eu hunain, gofyn iddyn nhw "Beth sy'n bwysig?" a gweithio gyda phartneriaid i lywio'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael yn Rhondda Cynon Taf;
 - parhau i ymateb mewn modd effeithiol i oedolion mewn perygl, trwy godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu oedolion, a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gofal a chymorth ar gael i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, i'w galluogi nhw i fyw bywyd diogel a hyderus
- agor cynllun gofal ychwanegol, Tŷ Heulog, yn Nhonysguboriau;
- cyflwyno'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, yn ogystal â gweithio gydag eraill i ddatblygu rhwydweithiau cymorth yn y gymuned;
- gweithio gyda phartneriaid i wella trefniadau'r gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu. Rydyn ni wedi ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth, a'u teuluoedd, i lywio'r gwasanaeth sydd ei angen ac i ddeall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Rydyn ni hefyd wedi ehangu darpariaeth gwasanaethau oriau dydd arbenigol ar gyfer oedolion ifainc, a darparu rhaglenni byw'n iach a magu hyder yn y gymuned. Rydyn ni hefyd wedi darparu rhagor o lety â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.



93.19%

Cafodd 93.19% o ymholiadau diogelu oedolion eu cwblhau o fewn 7 diwrnod.

78.57%

Cafodd 78.57% o oedolion yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth priodol.

93.19%

Roedd 93.19% o oedolion wedi cwblhau cyfnod ailalluogi ac angen llai o gymorth 6 mis yn ddiweddarach.

67.04%

Roedd 67.04% o bobl wedi eu hasesu gan y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion angen cymorth yn uniongyrchol gan y Cyngor.

Mesur newydd – dim data cymharol

↑14.34%

Roedd 14.34% o gleientiaid wedi defnyddio taliad uniongyrchol i reoli eu trefniadau gofal eu hunain.

↑456

Cafodd 456 o bobl eu derbyn i wasanaethau gofal preswyl neu ofal nyrsgio.

Cadw'r trigolion yn ddiogel

Mae Z yn 59 oed. Mae ganddi fân anabledd dysgu. Cafodd ei hatgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf oherwydd pryderon am achos o gam-drin a chamfanteisio posibl arni gan bobl roedd hi'n eu hystyried yn 'aelodau o'i theulu'. O ganlyniad i waith pellach, a rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau partner y Hwb Diogelu Amlasiantaeth, cafodd ei benderfynu doedd Z ddim yn gallu rheoli ei harian na chadw ein hun yn ddiogel rhag cael ei chamfanteisio'n rhywiol. Roedd Z yn cael ei cham-drin mewn sawl ffordd gan nifer o bobl.

Dyma'r hyn a wnaeth y Cyngor i sicrhau ei diogelwch:

- Cymryd camau i ddiogelu ei harian drwy gael caniatâd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i reoli budd-daliadau Z.
- Sicrhau tenantiaeth Z ar gyfer ei fflat a gwella ei hamodau byw trwy weithio gyda Trivallis.
- Cyflwyno Z i weithwyr cymorth er mwyn iddi gael cymorth ymarferol ac emosïynol, gan leihau ei dibyniaeth ar y bobl a oedd yn ei cham-drin hi, ac amharu ar yr hyn roedden nhw'n ei wneud.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn cynnal ymchwiliadau troseddol i achosion o droseddau rhywiol, dwyn a thwyll.

Ers yr ymyriad cychwynnol, mae Z yn parhau i gael cymorth gan amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor. Mae hi wedi symud i gyfleuster gofal ychwanegol lle mae gofal 'cofleidiol' ar gael. Mae Z yn ffynnu, ac mae ei hyder a'i sgiliau bywyd yn gwella.

Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref

Mae Mrs D yn 94 oed. Roedd yn byw'n annibynnol, â chymorth. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty ar ôl llithro oddi ar gadair yn ei chartref. Yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, daeth i'r amlwg bod hefyd ganddi haint sylfaenol, a dechreuodd gael triniaeth ar ei chyfer. Yn yr ysbyty, roedd pryderon am ei gallu i ymdopi gartref. Roedd Mrs D eisiau mynd adref ac yn ddigon iach i fynd adref, ond, roedd angen therapi a chymorth arni i'w helpu hi i wneud hynny. Cafodd ei hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref. Cafodd ei hanghenion corfforol, meddygol a dyddiol – er enghraifft, paratoi bwyd – eu hasesu a chafodd trefniadau eu gwneud i'w helpu hi i ymdopi gartref. Cafodd Mrs D ei rhyddhau o'r ysbyty yr un diwrnod.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- sicrhau bod ein Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn gwella ansawdd bywyd y trigolion;
- sefydlu trefniadau llety newydd ar gyfer pobl sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol;
- gweithredu buddsoddiadau ym maes hamdden a mannau chwarae i annog pobl i ymarfer corff;

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd llai o bobl yn cael eu derbyn i ofal preswyl neu ofal nyrsgio;
- bydd angen llai o gymorth ymhen chwe mis ar yr oedolion sy'n cwblhau cyfnod ailalluogi;
- bydd mwy o bobl yn defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli eu trefniadau gofal eu hunain;
- bydd mwy o bobl yn mynd adref o'r ysbyty yn gynt;
- bydd cynnydd yn nifer yr ymwiliadau â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

Sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael dechrau gwyach mewn bywyd...

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 trwy newid ein dull gweithio, gan gynnwys ein gwaith asesu a'n gwaith papur i sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd;
- gweithio gyda phlant a phobl ifainc sydd angen gofal a chymorth i gyrraedd eu potensial;
- darparu un ddolen gyswllt am ein holl Wasanaethau i Blant fel bod pob achos yn cael ei drin yn yr un modd ac i sicrhau bod atgyfeiriadau brys yn digwydd yn gyflym;
- ar y cyd â'n partneriaid, wedi adolygu'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth a dod i'r casgliad ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i blant, yn ogystal ag amlygu rhagor o welliannau ar gyfer y dyfodol;
- helpu plant a theuluoedd i gael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnyn nhw drwy gyflwyno gwefan **Dewis Cymru**;
- gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu anawsterau i'w helpu i gadw'r plant neu i ddod â'r plant adref yn gynt, os yw'n ddiogel. Serch hynny, mae mwy o blant yn 'derbyn gofal' er mwyn eu cadw nhw'n ddiogel;
- helpu rhagor o blant i aros gyda'u teulu estynedig pan does dim modd iddyn nhw fyw gyda'u rhieni.

Fe ofynnwn ni i'r plant sydd â chynllun gofal a chymorth ar waith i fynegi eu barn ar y gwasanaeth maen nhw'n ei gael.

O ran y rhai a atebodd, meddai:

- 88% eu bod nhw'n byw mewn cartref lle maen nhw'n hapus;
- 87% eu bod nhw'n fodlon ar y bobl yn eu cartref;
- 96% eu bod nhw bob tro (72%) neu weithiau (24%) yn gwneud pethau maen nhw'n eu mwynhau;
- 81% fod ganddyn nhw ymdeimlad o berthyn i'r ardal lle maen nhw'n byw;
- 92% eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel;
- 79% eu bod nhw wedi cael y cymorth a'r cyngor cywir pan oedd angen hynny arnyn nhw a meddai 81% fod eu barn ar y gofal a'r cymorth roedden nhw'n eu cael yn cael ei hystyried;
- 91% eu bod nhw'n fodlon ar y gofal a'r cymorth, ond doedd dim ond 70% o'r farn eu bod nhw wedi cael cyngor a chymorth i'w helpu nhw i baratoi ar gyfer troi'n oedolion.



↑ 20.0%

Roedd angen cymorth y Gwasanaethau i Blant statudol ar 20.0% o blant a phobl ifainc yn y teuluoedd sydd wedi cael sylw gennym ni.

↓ 690

Daeth 690 o blant yn 'blant sy'n derbyn gofal'.

↓ 9.40%

Roedd 9.40% o'r achosion o roi enwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn achosion o ailgofrestru, sy'n waeth na'r disgwyl ac rydyn ni'n ystyried ffyrdd o leihau'r achosion hyn.

↑ 24.5%

Roedd 24.5% o blant a phobl ifainc sy'n 'derbyn gofal' wedi mynd yn ôl i'w cartrefi o fewn 12 wythnos; 17.5% o fewn 12–24 wythnos; a 58% ar ôl 24 wythnos.

Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH)

Daeth atgyfeiriad i law gan ysgol ar ôl i un o'r tadau fynd yno i gasglu ei blentyn. Roedd y plentyn yn ymddangos yn ofnus o'i dad, nad oedd yn byw yn yr ardal. Yn ôl y gwaith asesu gan garfan plant yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth roedd angen cymryd camau brys, a chafodd yr wybodaeth ei rhannu â'r heddlu. Daeth i'r amlwg bod y tad yn gyflawnwr cam-drin domestig na ddylai gael cyswllt â'r plentyn heb oruchwyliaeth. Aeth yr heddlu i'r ysgol ac arestio'r tad o fewn hanner awr ar ôl cael gwybod am y digwyddiad.

Carfan Integredig Cymorth i Deuluoedd

Daeth atgyfeiriad i law ar ôl digwyddiad domestig mewn cartref teuluol. Bu ymosodiad ar berson ifanc gan y tad. Roedd gan y tad euogfarnau blaenorol yn gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys dau achos o drosedd treisgar yn erbyn plant. Meddai'r ddau riant eu bod nhw'n yfed alcohol yn ormodol yn aml, a bod hyn yn arwain at ymddygiad treisgar. Cafodd enwau eu plant eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac aeth y Garfan ati i wneud gwaith ymyrraeth ddwys gyda'r teulu. Roedd hyn yn ceisio mynd i'r afael â'u materion yfed trwy ddatblygu strategaethau ymdopi mwy cadarnhaol yn ystod cyfnodau o straen a hwyliau gwael. Roedd gwaith arall gyda'r rhieni yn canolbwyntio ar eu hymddygiad ymosodol ac ar wella cyfathrebu rhyngddyn nhw.

Ar ôl y gwaith yma roedd modd i'r rhieni ddangos eu bod nhw'n gallu yfed alcohol yn gymedrol dros gyfnod hir a doedd dim rhagor o achosion o drais yn y cartref. Ar ôl cynnal adolygiad achos, cafodd enwau'r plant eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac mae'r achos wedi dod i ben ers hynny.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- defnyddio gwybodaeth fwy penodol i dargedu'r plant a'r teuluoedd sydd angen help mewn modd gwell;
- cadw plant yn rhan o'u teuluoedd, lle y bo'n ddiogel;
- sicrhau bod plant sydd ddim yn cael byw gyda'u rhieni yn byw mewn llety addas yn Rhondda Cynon Taf.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...


- bydd angen i lai o blant 'dderbyn gofal' gan y Cyngor;
- bydd y plant a'r bobl ifainc sy'n 'derbyn gofal' yn cael mynd yn ôl i'w teuluoedd cyn gynted ag y bydd hynny'n ddiogel;
- bydd pobl ifainc sy'n gadael gofal yn manteisio ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth 12 mis a 24 mis yn ddiweddarach.



Ailgynllunio gwasanaethau lleol fel eu bod nhw'n integredig ac yn effeithlon

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- dechrau mynd ati i sicrhau bod trosglwyddo o'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i blant i'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei wella. Bydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i wneud hyn yn iawn, felly, byddwn ni'n parhau y flwyddyn nesaf;
- gwella mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau trwy gyflwyno Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gofal Sylfaenol a darparu clinigau allgymorth. Rydyn ni hefyd yn mynd ati i wella adeiladau a mynediad i bobl anabl;
- gweithredu dull mwy cydlynol o ran helpu i leihau effaith tlodi ar ein trigolion trwy weithio'n agosach gyda'n partneriaid ni, targedu gwaith ymgysylltu â'r gymuned i gynnal ymyrraeth gynnar a chynyddu gweithredu cymunedol;
- parhau i wella tai trwy weithredu'r Ardal Gweithredu Tai ac Iechyd yn Tylorstown a Phen-rhys;
- parhau i osod mesurau inswleiddio mewn cartrefi yn Rhondda Cynon Taf i helpu trigolion i leihau eu biliau ynni.



Roedd 69.0% o ddefnyddwyr y gwasanaeth wedi datgan bod eu camddefnydd o sylweddau wedi lleihau.

Ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau

Roedd B, 30 oed, mewn perthynas dymor hir, mewn cyflogaeth fedrus ac yn chwarae pêl-droed ar y penwythnos. Ers pan oedd e'n 18 oed, roedd B wedi mynd allan nos Wener a nos Sadwrn ac yfed llawer iawn o alcohol. Roedd e'n meddwl bod hyn yn 'normal'. Pan oedd B yn 24 oed, rhoddodd gynnig ar gocên am y tro cyntaf, wedyn cynyddu ei ddefnydd o alcohol a chocên. Rhoddodd hyn straen ar ei berthynas.

Pan oedd e'n 28 oed, cafodd B anaf wrth chwarae pêl-droed a doedd dim modd iddo weithio. Dechreuodd deimlo'n isel, a dechrau camddefnyddio cocên i'w drin ei hun. Arweiniodd hyn at waethygu ei iselder, colli ei swydd, arwahanwydd cymdeithasol, a mynd i ddyled. Yn y pen draw, chwalodd perthynas B. Yn ystod apwyntiad yn yr ysbyty, datgelodd B ei gamddefnydd o gocên a rhoddodd y meddyg wybodaeth iddo fe, ac i'w bartner, am wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Aeth B a'i bartner i'r ganolfan galw heibio, 'The Next Step', ym Mhontypridd. Cafodd ei atgyfeirio i Un Pwynt Mynediad i Wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol ('DASPA') Cwm Taf.

Dechreuodd B fanteisio ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymryd rhan mewn gweithgareddau i'w helpu i leihau ei arwahanwydd. Dechreuodd feithrin perthnasoedd gyda defnyddwyr eraill y gwasanaeth, manteisio ar gymorth gan gyfoedion, a magu hyder. Daeth B hefyd yn rhan o ymyriadau i'w helpu i adnabod yr hyn sy'n ei achosi i gamddefnyddio. Gyda'r cymorth oedd ar gael, penderfynodd B roi'r gorau i yfed alcohol yn gyfan gwbl oherwydd byddai hynny, fel arall, yn arwain at gamddefnyddio cocên. Sylwodd B fod modd iddo 'fynd ar hyd llwybr arall' heb ddefnyddio sylweddau. Mae partner B wedi gweithio gyda'r garfan Cymorth i Deuluoedd ac, erbyn hyn, mae'n deall dibyniaeth ar sylweddau. Mae B a'i bartner yn byw gyda'i gilydd eto.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...


- sefydlu trefn newydd i gysoni gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer trigolion yn ardal Cwm Taf;
- gweithredu newidiadau yn y gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd;
- gweithio gyda'n partneriaid ni i wneud y gorau o gyfleoedd i bobl gael cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau llesol.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cwtogi ar gamddefnyddio sylweddau.

Fel bod Rhondda Cynon Taf ymhlith y llefydd mwyaf diogel i fyw ynddyn nhw yng Nghymru, lle mae'r bobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd ac mae'r trigolion yn teimlo'n ddiogel

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi cwblhau adolygiad o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Cham-drin Domestig ac wedi newid dull darparu gwasanaethau fel ein bod ni'n darparu mwy o gymorth ataliol.



Roedd 74.0% heb wynebu trais domestig yn ystod y mis diwethaf / ers dechrau.



Roedd 85.0% heb wynebu trais domestig yn ystod y mis diwethaf / ers dechrau.



Meddai 82.0% fod ansawdd eu bywyd yn well.



Meddai 93.0% eu bod nhw'n hyderus o ran manteisio ar gymorth yn y dyfodol.

Trwy weithio gyda Chyngorwr Annibynnol ar Drais Domestig, roedd dioddefwyr cam-drin domestig dan ddwylo eu mab yn gallu magu hyder i gymryd camau i'w atal rhag dod i'w cartref. Erbyn hyn, mae X wedi symud ymhellach i ffwrdd o gartref ei rieni ac yn cael cymorth gan Weithiwr Achos o 'Project Drive', sydd hefyd yn gallu herio ymddygiad X. Erbyn hyn, mae ei rieni yn teimlo bod ganddyn nhw fwy o reolaeth ar eu sefyllfa a mwy o dawelwch meddwl.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- sicrhau bod ein prosiect galwyr diwahodd ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn eu helpu nhw i deimlo'n ddiogel;
- sicrhau bod ein Gwasanaethau Trais Domestig yn ardal Cwm Taf yn diwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio nhw.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd bydd rhagor o'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw...

- heb wynebu achosion o gam-drin;
- yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n fwy diogel;
- yn dweud bod ansawdd eu bywyd yn well;
- yn hyderus o ran manteisio ar gymorth yn y dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i 'hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb' yn ein **cynllun POBL 2017/18**. Bydd ein gwaith yn galluogi Rhondda Cynon Taf i gyfrannu at Gymru gydnherth ac iachach, yn ogystal â nodau Llesiant cenedlaethol eraill.





LLEOEDD:
Creu cymdogaethau mae
pobl yn falch o gael byw a
gweithio ynddyn nhw

LLEOEDD

Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

Gwybodaeth allweddol am Riondda Cynon Taf

- Mae 7.2% o ffyrdd RhCT (prif ffyrdd a rhai nad ydyn nhw'n brif ffyrdd) mewn cyflwr sy'n gyffredinol wael. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 11.2%
- Dydyn ni ddim yn gwybod y ffigyrau ar gyfer RhCT eto ond rydyn ni'n gwybod mai plant Cymru yw'r lleiaf cysylltiedig â natur yn y DU. Fydd 1 o bob 4 o blant yng Nghymru byth yn chwarae yn yr awyr agored ac mae ychydig o dan 90% o blant yn eu cael eu hunain wedi'u datgysylltu oddi wrth y byd naturiol.
- Cost amcangyfrifedig disymudrwydd corfforol yng Nghymru yw £650 miliwn y flwyddyn. Mae lefelau gweithgaredd corfforol oedolion yn ardal Cwm Taf ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae 94.1% o oedolion sydd dros 60 oed yn ddeiliaid tocyn mantais y bysiau

Yn 2016, fe ddywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i greu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw.

Yn ystod 2016/17, fe wnaethon ni gynnydd da yn ein gwaith ar gyfer y flaenoriaeth LLEOEDD.


Rydyn ni wedi gweithio gyda'n partneriaid yn y gymuned i helpu pobl i deimlo'n fwy diogel, gan sefydlu'r Bartneriaeth Alcohol yn y Gymuned (CAP) gyntaf ar gyfer Rhondda Cynon Taf, yn y Porth. Fe gyflwynon ni Gynllun 'Divert' gyda'n partneriaid a ataliodd pob oedolyn ifanc 18-25 oed a gymerodd ran yn y cynllun rhag aildroseddu, ac a gynyddodd dealltwriaeth trigolion o Droseddau Casineb, a sut mae rhoi gwybod amdany'n nhw, yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.

Buddsoddon ni mewn mannau chwarae a meysydd chwaraeon 3G yn rhan o raglen 'BuddsoddiadRhCT'. Fe barhaon ni i fuddsoddi yn ein seilwaith ffyrdd, gyda rhaglen eang o waith gan gynnwys gwella a thrwsio ffyrdd, pontydd a phalmentydd, trwsio ceudyllau a buddsoddi mewn goleuadau stryd mwy ynni-effeithlon. Mae arolwg o gyflwr ein priffyrdd yn dangos bod llai o'n ffyrdd mewn 'cyflwr cyffredinol wael' o ganlyniad i'n gwaith. Serch hynny, mae angen i ni barhau â'r gwaith gan mai dim ond 36% o drigolion sy'n fodlon ar gyflwr y ffyrdd a'r palmentydd ar hyn o bryd.

Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn allweddol wrth symud ein blaenoriaeth LLEOEDD yn ei blaen. Drwy ein rhaglen 'RhCT Gyda'n Gilydd', mae 13 o gynlluniau hyd yma wedi cael eu trosglwyddo i berchnogaeth y gymuned ac mae rhagor yn cael eu hystyried ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Fe weithion ni'n agos gyda chymunedau lleol i ddatblygu ein gwasanaeth llyfrgelloedd, gan gynnwys cefnogi cynhwysiant digidol drwy ein 'Dydd Gwener Digidol', gydag adborth yn dangos pa mor fawr mae trigolion yn gwerthfawrogi llyfrgelloedd lleol.

Drwy barhau i weithio gyda thrigolion, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o gymryd rhan, fe gyflawnon ni ein cyfraddau ailgylchu gorau erioed, gan ragori ar darged Llywodraeth Cymru, sef 65% erbyn 2018. Dim ond 2% o'n gwastraff sy'n cael ei anfon i safle tirlenwi erbyn hyn. Fe weithion ni gyda thrigolion i gadw'r Fwrdeistref Sirol yn lân ac yn daclus hefyd, gan weithio mewn partneriaeth ar yr ymgyrch 'Symud Tŷ? Chwarae Teg!' i annog myfyrwyr i roi eitemau diangen i'w hailddefnyddio, a lansio ymgyrch i leihau baw cŵn mewn ymateb i adborth trigolion.

*Mae modd i chi gael gwybodaeth fwy manwl ynglŷn â'n cynnydd o ran yr hyn roedden ni'n bwriadu ei gyflawni yn 2016/17 yn ein **Gwerthusiad o Gyflawniad**. Mae hyn yn cynnwys sut mae RhCT yn cyfrannu at y saith nod Llesiant, ac yn benodol, at Gymru Ffyniannus.*




Fel bod cymunedau Rhondda Cynon Taf yn fwy gwydn ac wedi'u hymgysylltu

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- parhau i weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol sy'n rhedeg eu gwasanaethau llyfrgelloedd.
- parhau i gefnogi'r grwpiau cymunedol gan gynnwys y rhai sy'n rhedeg Canolfan Gelf y Miwni; Amgueddfa Cwm Cynon; Canolfan y Pentre; hen Ganolfan Oriau Dydd y Pentre; y "Feel Good Factory" a Phwll Lee Gardens.
- helpu trigolion i wella eu sgiliau TGCh a digidol drwy ein 'Dydd Gwener Digidol'.

'Dydd Gwener Digidol'.

"Mae'r staff wedi fy helpu i cryn dipyn i ddod i arfer â defnyddio cyfrifiaduron oherwydd nad ydw i wedi'u defnyddio nhw llawer o'r blaen, ac fe helpon nhw fi i gyflwyno cais ar-lein ar gyfer swydd Cymryd Stoc a Gyrru - bydda i'n dechrau ddydd Sul!"



Mae 85% o drigolion yn fodlon ar Ronda Cynon Taf fel lle i fyw ynddo
Mesur newydd - dim data cymharol

Y "Feel Good Factory"

Erbyn hyn, y "Feel Good Factory" sy'n rhedeg rhan o hen Feithrinfa Penygawsi yn Llantrisant. Mae'r "Feel Good Factory" yn darparu cyfleusterau ymarfer corff ar gyfer pobl sy'n dewis peidio â defnyddio campfa gonfensiynol am resymau corfforol neu gymdeithasol. Mae'r cyfleuster wedi'i gynllunio yn arbennig ar gyfer pobl sydd â phroblemau symudedd a'r rheiny sydd ag anghenion cymorth iechyd cymedrol. Gyda chymorth gan Interlink, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a'r garfan 'RhCT Gyda'n Gilydd', mae'r "Feel Good Factory" wedi cael ei gynorthwyo i drosglwyddo o fusnes preifat i Gwmni. Mae'r "Feel Good Factory" wedi bod yn gweithredu ym Mhenygawsi ers mis Mawrth 2017, ac mae'n dweud bod rhagor o aelodau gydag ef erbyn hyn sy'n teimlo'n hapusach, yn fwy iach ac yn well amdanyn nhw eu hunain. Mae ganddyn nhw rwydweithiau cymdeithasol ehangach a rhagor o ffrindiau ac maen nhw o'r farn bod eu symudedd wedi gwella.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- dwyn grwpiau o bobl ifainc a phobl hŷn ynghyd fel bod modd iddyn nhw rannu gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hanghenion.
- trefnu rhaglen o achlysuron celfyddydau yn ein theatrau a fydd yn helpu i wella bywydau ein trigolion o bob oed.
- helpu i feithrin gwytnwch a galluogrwydd y gymuned drwy roi Rhwydweithiau Cymdogaeth yn eu lle ar draws y Fwrdeistref Sirol.


Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o drigolion yn fodlon ar y Fwrdeistref Sirol fel lle i fyw ynddo.


Fel bod Rhondda Cynon Taf ymhlith y llefydd mwyaf diogel i fyw ynddyn nhw yng Nghymru, lle mae'r bobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd ac mae'r trigolion yn teimlo'n ddiogel

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sut mae rhoi gwybod amdanyn nhw, drwy roi hyfforddiant i'n staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, theatrau ac yn un o'n hysgolion hyd yma. Rydyn ni wedi sefydlu Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf drwy weithio gyda Heddlu De Cymru. Mae'r Grŵp yn cael gwybodaeth am faterion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau ac yn annog trigolion i ddod i gyfarfodydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth gymunedol. Mae'r Grŵp wedi clywed (yn anffurfiol) bod y lefel o iaith amharchus a chasineb wedi'u targedu at grwpiau lleiafrifol wedi cynyddu yn dilyn Brexit. Yn ogystal â hynny, fe lansion ni Ymgyrch Troseddau Casineb Anabledd i gydnabod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2016.
- helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i achosi gan gamddefnyddio alcohol o 29%, o 231 o achosion yn 2015/16 i 164 yn 2016/17, drwy ein gwaith ar y rhaglen Partneriaeth Alcohol yn y Gymuned ar gyfer y Porth a thargeddu prynu dan oed.



Mae 87.0% o ddiodefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'n cymorth



Dywedodd 69.4% o drigolion wrthon ni eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel

Mesur newydd - dim data cymharol

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- canfod effaith ein gwaith i leihau gallu pobl ifainc i gael gafael ar alcohol yng nghymuned y Porth.
- parhau i fonitro Troseddau Casineb a siarad â thrigolion am eu profiadau.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd trigolion yn dweud wrthon ni eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel.



Cadw Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo a rhagor o wastraff yn cael ei ailgylchu yn lle mynd i'r safle tirlenwi


Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- buddsoddi £20 miliwn arall i wella cyflwr y ffyrdd, pontydd a'r seilwaith priffyrdd a oedd yn cynnwys 98 o gynlluniau adnewyddu arwynebau ar draws RhCT, gyda 6,000 o dunelli metrig o darmac wedi'u rhoi ar 9km o briffordd pan gafodd arwyneb newydd ei osod ar Ffordd Mynydd y Rhigos. Yn ogystal â hynny, fe gwblhaon ni 3 chynllun trwsio priffyrdd hanfodol, 43 cynllun gosod troedffyrdd newydd e.e. Kerry Street, Tonypanyd a Birchgrove, Aberdâr a gwerth £88 mil o waith gosod rhwystrau diogelwch gan gynnwys Ffordd Mynydd y Bwlch a New Road, Abercynon (A4159).
- gwella Stag Square, Treorci; croesfan i gerddwyr yn Cardiff Road, Trefforest, gwella signalau yn Station Road, Pentre'r Eglwys, gwella signalau croesfan sebra yn Cowbridge Road, Pont-y-clun a dechrau gwella cylchfan yr A4119/A473.
- gweithio gyda thrigolion i gynyddu ailgylchu ymhellach yn Tylorstown, Pont-y-gwaith, Stanleytown, Ynys-y-bwl, Penrhiw-ceibr, Y Gilfach-goch, Trefforest, Y Maerdy, Llanharan, Abercynon, Llwynypia a Rhydfelen. Cafodd rhywfaint o'r gwaith yma ei wneud o ganlyniad i gyllid gan 'Ailgylchu dros Gymru'.
- targedu'r ardaloedd gwaethaf i leihau taflu sbwriel a chŵn yn baeddu, codi ymwybyddiaeth o beryglon baw cŵn, gosod 150 o finiau gwastraff cŵn ychwanegol a chryfhau ein mesurau gorfodi gan gyhoeddi 11 o gosbau penodedig a arweiniodd at 3 o erlyniadau.



↑ **64.69%**

Rydyn ni wedi ailgylchu 64.69% o'n gwastraff, sydd yn uwch na'r disgwyl ac sydd ymhlith y lefelau uchaf yng Nghymru.



↓ **96.87%**

Fe glirion ni 96.87% o dipiau anghyfreithlon cyn pen pum niwrnod gwaith.

Bro-garwyr Tra Mad

Mae ein gwobrau 'Bro-garwyr Tra Mad' yn cydnabod a llongyfarch y bobl yn Rhondda Cynon Taf sy'n mynd cam ymhellach i ddiogelu ein hamgylchedd a helpu i gadw ein Bwrdeistref Sirol yn lle glân a gwyrd i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Yn 2016, y prif enillydd oedd Joshua o Ysgol Babanod Pen-y-graig. Byddwn ni'n cynnal gwobrau 2017 ym mis Mehefin.

Os ydych chi'n adnabod hyrwyddwr amgylcheddol sy'n mynd cam ymhellach gyda'i ymdrechion eco, mynnwch becyn enwebu a rhoi gwybod i ni. Yn 2018, efallai mai chi fydd yn ennill...

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- gwella cyflwr ein seilwaith ffyrdd a phriffyrdd yn rhan o'n rhaglen gwerth £200 miliwn 'BuddsoddiadRhCT'.
- cyflwyno cynlluniau cludiant a fydd yn hyrwyddo cerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus ac yn arwain at leihau'r traffig sydd ar y ffyrdd.
- parhau i weithio gyda thrigolion i godi lefel y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu ymhellach ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- mynd i'r afael â baw cŵn a pherchnogion cŵn anghyfrifol neu bobl sy'n mynd â chŵn am dro, drwy weithredu Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus gydag **ymgyrch codi ymwybyddiaeth lem**, 'Ewch â'r C*chu 'da chi'.


Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- byddwn ni'n ailgylchu 65% o'n gwastraff.
- byddwn ni'n cynnal ein safonau uchel o ran cadw RhCT yn lân a chlirio tipio anghyfreithlon.

Fel bydd modd i chi barhau i werthfawrogi parciau a mannau gwyrdd Rhondda Cynon Taf

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr y parciau ynglŷn â chyflwr meysydd chwarae a gwaith cynnal a chadw drwy gysylltu â chlybiau chwaraeon a thrwy gyfryngau cymdeithasol.
- gwella 46 o ardaloedd chwarae drwy raglen buddsoddi werth £1.7 miliwn.
- buddsoddi mewn meysydd chwarae 3G newydd gan gynnwys maes chwaraeon Hen Lofa'r Maritime, maes chwaraeon Parc y Pentre a maes rygbi Heol Sardis a Chaedrawnant, Aberpennar.



Mae 86.0% o'n trigolion yn fodlon ar ein parciau a'n mannau agored ar gyfer hamdden, mwynhad a chwaraeon.

Mesur newydd - dim data cymharol

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys...

- gosod maes chwarae 3G newydd yng Nghanolfan Hamdden Abercynon, a hefyd yng nghampws Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Glynrhedynog ar gyfer defnydd yr ysgol a'r gymuned hefyd.
- rhoi Cynllun Bioamrywiaeth ar waith sy'n cadw'r cydbwysedd rhwng ecosystemau iach a seilwaith sy'n cael ei ddatblygu ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu i ailddatblygu Parc Ynysangharad.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd trigolion yn fodlon ar ein parciau a'n mannau agored.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i 'Greu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw' yn ein **cynllun LLEOEDD 2017/18**. Bydd ein gwaith yn galluogi Rhondda Cynon Taf i gyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn ogystal â nodau Llesiant cenedlaethol eraill.





cyllideb: incwm, gwariant, refeniw, cyllid, adnoddau, economi, effeithlonrwydd.

CYLLIDEB

Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb - Torri'r gôt yn ôl y brethyn

Mae cyllideb y Cyngor wedi'i rhannu'n ddwy:

1. Y gyllideb refeniw sy'n talu am gostau o ddydd i ddydd megis cyflogau, biliau cyfleustodau ar gyfer rhedeg a chynnal ein hadeiladau a rhedeg a chynnal ein cerbydau.
2. Mae'r gyllideb gyfalaf yn talu am yr eitemau mwy hynny a fydd yn eu lle am gyfnod hwy na blwyddyn, megis ailwampio neu adeiladu ysgolion newydd.

Fel pob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r cyllid y mae'r Cyngor wedi bod yn ei dderbyn dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gostwng o ganlyniad i fesurau cyni Llywodraeth San Steffan. Ar yr un pryd, mae'r galw am wasanaethau a'r costau am eu darparu yn cynyddu, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth megis gofal cymdeithasol. Mae'r rhagolygon cenedlaethol diweddaraf yn rhagweld bod hyn yn debygol o barhau am nifer o flynyddoedd.

Y llynedd, gostyngodd yr arian a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru o 0.9% ac ar ôl cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn costau a galw, roedd angen arbed £17.515 miliwn wrth bennu **Cyllideb Refeniw** o £454.8 miliwn.

Yn rhan o waith cynllunio'r gyllideb, llwyddodd y Cyngor i wneud yr arbedion yma drwy fod yn fwy effeithlon, moderneiddio gwasanaethau, gostwng costau rheoli a gwneud arbedion un-tro. Drwy gymryd yr ymagwedd yma, roedd modd i ni wneud cyn lleied o newidiadau i wasanaethau rheng flaen ar gyfer cwsmeriaid â phosibl gan gadw digon o arian wrth gefn er mwyn i'r Cyngor gynnal ei sefyllfa ariannol gadarn. Serch hynny, fe nodon ni nifer o faterion y bydd angen i ni barhau i'w rheoli yn ofalus.

Eleni, sef 2017/18, roedd yr arian a gawson ni gan Lywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl - cynnydd o 0.4%. Serch hynny, parhaodd y costau tybiedig a'r galw am wasanaethau i gynyddu. O ganlyniad, er gwaethaf y cynnydd yn y cyllid, roedd angen i'r Cyngor wneud arbedion o £13.818 miliwn wrth bennu **Cyllideb Refeniw** o £458.94 miliwn.

Rydyn ni'n gwybod bod y gorwel ariannol yn parhau i fod yn heriol. Yn rhan o'n gwaith i baratoi a chynllunio ar gyfer y dyfodol, rydyn ni'n edrych ar faint bydd darparu gwasanaethau yn ei gostio i ni dros y tair blynedd nesaf, ochr yn ochr â faint rydyn ni'n debygol o'i gael. Mae'r wybodaeth yma wedi'i nodi yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf, a gafodd ei baratoi ym **Medi 2016**, yn dangos mai £62 miliwn yw'r bwlch rhwng yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wario a'r cyllid rydyn ni'n debygol o'i gael rhwng nawr a 2019/20.

Rydyn ni'n edrych yn barhaus ar sut bydd modd i ni ymateb i'r her yma orau o fewn ein gwasanaethau, a thrwy weithio gydag eraill, boed hynny gyda'n partneriaid sector cyhoeddus neu drwy helpu pobl a chymunedau i helpu eu hunain.

Cafodd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 - 2019/20 ei chymeradwyo gan **y Cyngor ar 1 Mawrth 2017**.

Y llynedd, cafodd trefniadau ariannol y Cyngor eu harchwilio gan ei archwilydd allanol ac annibynnol, sef Swyddfa Archwilio Cymru, yn rhan o'i adolygiad o'r holl Gyngor. Yn ei adroddiad, a gafodd ei gyhoeddi ym Mehefin 2017, cafodd yr archwilydd fod gan y Cyngor **'ymagwedd effeithiol tuag at gynllunio a gwella arbedion ar y cyfan, sy'n cefnogi gwytnwch ariannol ar gyfer y dyfodol'**. Edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ar sut roedd holl Gyngorau Cymru yn cyflawni eu cynlluniau arbed. Yn ei adroddiad ar ei chanfyddiadau a oedd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad 'Cynllunio Arbedion mewn Gyngorau yng Nghymru', cafodd Rhondda Cynon Taf ei nodi yn un o ddim ond dau Gyngor a gyflawnodd 100% o'u cynlluniau arbed yn 2015/16.

O ganlyniad i'n trefniadau ariannol a chynllunio gwasanaethau cadarn, dros y blynyddoedd rydyn ni wedi llwyddo i adnabod adnoddau sylweddol y bu modd i ni eu buddsoddi. Y llynedd, buddsoddwyd £15 miliwn ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor, a oedd yn cynnwys

- **ECONOMI** – cefnogi adfywio economaidd a chreu swyddi lleol drwy fuddsoddiad o £2.024 miliwn yn natblygiad safle Dyffryn Taf ym Mhontypridd, a £2 miliwn i gefnogi'r ffordd gyswllt newydd ar draws y cwm yn Aberpennar;
- **POBL** - buddsoddiad arall o £0.2 miliwn mewn swyddi prentisiaeth y Cyngor; a
- **LLEOEDD** – gwella cyflwr y ffyrdd a'r pontydd drwy fuddsoddiad o £6.264 miliwn, a buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden awyr agored, meysydd chwaraeon 3G, mannau chwarae a pharciau a mannau gwyrdd.

Dyma sut mae'r gyllideb ar gyfer 2017-18 yn cael ei rhannu ar draws gwasanaethau'r Cyngor...

- **YSGOLION** £146.95 miliwn – i dalu am gostau rhedeg ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig, er enghraifft, staff addysgu ac aelodau eraill o staff, a chostau adeiladau, fel trydan, nwy, a gwaith trwsio a chynnal a chadw.
- **ADDYSG A DYSGU GYDOL OES** £30.905 miliwn – i dalu am wasanaethau fel llyfrgelloedd, Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaeth Cerdd y Cyngor a gwasanaethau sy'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- **GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT** £138.076 miliwn – i dalu am wasanaethau sy'n gofalu am anghenion oedolion a phlant sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys cyflogi gweithwyr cymdeithasol, a hefyd wasanaethau Safonau Masnach a chanolfannau hamdden.
- **GWASANAETHAU RHENG FLAEN** £44.807 miliwn – i dalu am gostau casglu gwastraff a chael gwared ar wastraff, glanhau'r strydoedd, a gwaith trwsio a gosod arwynebau newydd ar y ffyrdd.
- **ADRAN Y PRIF WEITHREDWR A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** £28.225 miliwn – i dalu am wasanaethau fel treth y Cyngor a gwasanaethau budd-daliadau tai, Canolfannau lBobUn a chanolfan gyswllt dros y ffôn y Cyngor a chefnogi swyddogaethau gwasanaeth fel cyllid, adnoddau dynol a chymorth cyfreithiol.
- **CYLLIDBAU AWDURDOD CYFAN** £69.977 miliwn – i dalu am gostau benthyca arian i'w wario ar asedau'r Cyngor, fel adeiladau, ysgolion, ffyrdd a phontydd yn ogystal â'n cyfraniad ni at Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a meysydd pwysig eraill, fel talu ffioedd archwilio a chostau bancio.

adran



EIN GWAITH

Themâu pwysig sy'n sail i'n gwaith

Gweithio nawr er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel y dywedon ni'n gynharach, rydyn ni o'r farn bod modd ateb gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** orau drwy sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n integreiddio gofynion y Ddeddf ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, a chafodd hyn ei gymeradwyo gan y **Cabinet ym mis Tachwedd 2016**. Yn bwysicach na hynny, rydyn ni'n gwybod bod rhaid i ni barhau i ofyn pam rydyn ni'n gwneud y pethau rydyn ni'n eu gwneud a herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud e. Rhaid i ni fod yn fodlon gwneud newidiadau a fydd o fantais i drigolion Rhondda Cynon Taf, nawr ac yn y dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn nodi bod rhaid i'r Cyngor fod yn rhan o bartneriaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill hefyd, er mwyn gwella llesiant y rheiny sy'n byw a gweithio yn Rhondda Cynon Taf nawr, ac yn y dyfodol. Er bod y Cyngor yn gweithio'n wirfoddol gydag eraill mewn **llawer o bartneriaethau gwahanol**, mae'r Ddeddf yma yn golygu bod rhaid i bob Cyngor weithio yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y trigolion, ac yn golygu gweithio mewn ffordd wahanol gyda chyrff cyhoeddus a chymunedau eraill.

Mae Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn gweithio gyda llawer o'r un cyrff cyhoeddus, e.e. heddlu ac iechyd, ac fe gytunon nhw i gyfuno i ffurfio partneriaeth o'r ddau Gyngor yn ogystal â'r cyrff cyhoeddus perthnasol ar draws rhanbarth Cwm Taf, e.e. Bwrdd Iechyd y Brifysgol, yr Heddlu a'r trydydd sector. Cafodd hyn ei gadarnhau ym mis Medi 2016 pan sefydlwyd **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**.

Ym mis Mawrth 2017, yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori helaeth gyda thrigolion a rhanddeiliaid o bob rhan o Rondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei **Asesiad o Lesiant yn ardal Cwm Taf**. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad yma, a fydd yn cael ei ddiweddar'u barhaus, erbyn hyn yn cael ei defnyddio i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar Rondda Cynon Taf yn ogystal â llunio'r blaenoriaethau sy'n cael eu rhannu ar gyfer cyrff cyhoeddus ar draws Cwm Taf lle mae modd cyflawni rhagor drwy weithio gyda'n gilydd.

Rhaid i'r blaenoriaethau sy'n cael eu rhannu gael eu cyhoeddi erbyn Mai 2018 mewn 'Cynllun Llesiant' Cwm Taf. Bydd y cynllun yn dangos sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y bobl yng Nghwm Taf drwy weithio mewn partneriaeth. Mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yma: www.OurCwmTaf.Wales



Cydraddoldeb

Mynd i'r afael â Throseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf

Pan fydd pobl neu eiddo yn destun camdriniaeth neu drais oherwydd anabledd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol, rydyn ni'n galw hynny'n Drosedd Casineb.

Rydyn ni wedi parhau i sicrhau bod ein staff yn effro i'w cyfrifoldebau mewn perthynas â'u hagwedd a'u hymddygiad tuag at grwpiau gwahanol mewn cymdeithas. Y llynedd, fe ganolbwyntion ni ar staff mewn cartrefi Gofal Preswyl a Theatrau, a hefyd, fe weithion ni gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James.

Er mwyn cryfhau'r ffordd rydyn ni'n mynd i'r afael â Throseddau Casineb, rydyn ni'n gweithio gyda Heddlu De Cymru a Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf sydd newydd ei sefydlu. Mae'r grŵp yma yn casglu ystadegau am bob math ar Drosedd Casineb, digwyddiadau Stopio a Chwilio a gwybodaeth am faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar gymunedau. Mae'r grŵp yn awyddus i ganfod rhagor am yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau ac yn annog trigolion i fynd i'w gyfarfodydd i rannu eu profiadau. Mae'r profiadau yma'n cynnwys tystiolaeth anffurfiol o gynnydd mewn iaith amharchus a chas tuag at grwpiau lleiafrifol yn dilyn Brexit.

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref 2016, cafodd ymgyrch ei lansio a arweiniodd at gynnal digwyddiad yn Eglwys Unedig Dewi Sant, Pontypridd. Cafodd y digwyddiad yma ei gynnal mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac roedd e'n cynnwys siaradwyr o'r elusen 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' yn ogystal â dioddefwyr troseddau casineb yn siarad am eu profiadau. Ar ôl y digwyddiad yma, rhannodd gwirfoddolwraig ei phrofiad hi o ddiodeff aflonyddu oherwydd anabledd, er mwyn annog eraill i roi gwybod am Droseddau Casineb. Adroddodd hi ei hanes mewn sesiwn ymwybyddiaeth gyda phobl ifainc yn adeilad YMCA Hirwaun. Ar ddiwedd y sesiwn yma, llofnododd y bobl ifainc yr addewid #DimAnwybyddu er mwyn herio iaith negyddol. Mae ein gwirfoddolwr yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid i rannu ei stori â rhagor o bobl ifainc.

Ar gyfer Mis Hanes Pobl Lesbuaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, cynhaliodd Theatr y Parc a'r Dâr nifer o achlysuron penodol, er enghraifft, cynulleidfa arbennig gyda Frank Vickery a siaradodd am ei brofiadau. Yn ogystal â hynny, cafodd y ffilm PRIDE ei dangos. Daeth llawer o bobl i'r achlysuron yma, yn drigolion ac yn ymwelwyr o'r tu allan i Rondda Cynon Taf. Roedd swyddogion y Cyngor, Rhwydwaith 'Cynghreiriaid' y Cyngor a Swyddogion Troseddau Casineb o Heddlu De Cymru hefyd yn bresennol i hyrwyddo rhoi gwybod am Droseddau Casineb a chodi ymwybyddiaeth o hyn.

Mae'r Cyngor wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i wella cydraddoldeb o ran cyfeiriadedd rhywiol a phobl drawsryweddol. Yn 2016, cafodd llawer o adeiladau'r Cyngor (gan gynnwys Lido Ponty, Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, Theatr y Parc a'r Dâr a Theatr y Colisëwm) eu goleuo gyda lliwiau'r enfys er mwyn cydnabod Pride Cymru. Roedd y Cyngor yn falch o gael bod yn bresennol yn yr achlysur. Cafodd lluniau eu rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol ac roedd ymateb cadarnhaol iawn gan drigolion a'r cyhoedd yn gyffredinol wrth iddyn nhw rannu, hoffi ac ychwanegu sylwadau cadarnhaol.



Mewn cydnabyddiaeth o'n hymrwymiad a'n gwaith tuag at gydraddoldeb cyfeiriadedd rhywiol, yn 2016, cafodd y Cyngor ei gynnwys yn rhestr Stonewall o'r 100 cyflogwr gorau

Mae cyfleusterau hamdden y Cyngor wedi gweld buddsoddiad arwyddocaol yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at welliannau sydd wedi cael eu cydnabod gan ein trigolion. Mae pob adnewyddiad wedi cynnwys gwaith i wella cyfleusterau newid, er enghraifft, Canolfan Hamdden Llantrisant, Pwll Nofio Bronwydd, Canolfan Chwaraeon Cwm Rhondda a Chanolfan Chwaraeon Abercynon. Yn rhan o'r gwaith adnewyddu yma, rydyn ni wedi disodli'r ystafelloedd newid a'r blociau cawod ar gyfer dynion a menywod ar wahân gyda threfniadau newid a chyfleusterau tŷ bach i bawb (gan gynnwys teuluoedd) lle mae cwsmeriaid yn cael dewis ystod o giwbiclau preifat a phwrpasol ar gyfer newid a chael cawod. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant lle mae'r grŵp Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol wedi llogi'r pwll nofio ar ei gyfer e yn unig. Bydd datblygiadau yn y dyfodol hefyd yn ceisio canolbwyntio ar gynnal cyfleusterau newid cymysg lle bo modd. Lle na fydd modd cyflawni hyn, bydd cyfleusterau newid a chawodydd pwrpasol yn cael eu gosod er mwyn sicrhau bod pob cwsmer yn gallu newid a chael cawod yn gwbl breifat. Mae hyn hefyd yn gam cadarnhaol i bobl sy'n trosglwyddo'u rhywedd gan sicrhau preifatrwydd iddyn nhw yn y canolfannau hamdden.

Ym mis Ionawr 2017, unwaith eto, cydnabyddon ni Ddiwrnod Coffáu'r Holocaust drwy gynnal achlysur yn Theatr y Colisëwm yn Aberdâr. Daeth dros 300 o bobl i'r achlysur, gan gynnwys aelodau o gymuned Iddewig Caerdydd. Cafodd yr achlysur yma ei drefnu gan nifer o sefydliadau mewn partneriaeth, sef, y Cyngor, Cymunedau yn Gyntaf, Heddlu De Cymru, Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru, Ysgol Gynradd Parc Aberdâr ac Ysgol Gynradd Maes-y-coed. Yn yr achlysur yma, fe gofion ni am erchyllter yr Holocaust a'r hil-laddiad dilynol, gan godi ymwybyddiaeth o wahaniaethu heddiw a'r angen i roi gwybod am droseddau casineb.

Gwireddu addewid sefydliadol 'Amser i Newid Cymru'

Rydyn ni'n parhau i fynd i'r afael â'r cywilydd a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd y meddwl. Rydyn ni'n parhau i gynnal sesiynau 'Amser i Siarad' bob mis ac rydyn ni wedi cynnal sesiwn gyda chyfieithydd iaith Arwyddion Prydain ar gyfer ein cydweithwyr byddar. Cafodd cyfres o sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar eu cynnal ar gyfer gweithwyr y Cyngor yn rhan o'r achlysuron sy'n cydnabod Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Roedd yr adborth o'r sesiynau yma yn hynod gadarnhaol gyda nifer o gyfranogwyr yn ymgymryd â chwrs ymwybyddiaeth ofalgar gyda 'Valleys Steps'. Daeth Hyrwyddwr 'Amser i Newid Cymru' hefyd i fore coffi i rannu ei brofiadau. Mae pob un o'n rheolwyr wedi bod mewn cyfarfod paratoadol ynglŷn ag ymwybyddiaeth o lechyd Meddwl ac mae canllaw Iechyd Meddwl wedi cael ei baratoi. Mae ffocws ar lesiant yn y Cyngor ac rydyn ni wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o fesurau cefnogol i weithwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Mae gyda ni weithiwr sy'n rhannu ei brofiadau yn rheolaidd mewn blog ar fewnrwyd y Cyngor. Gan fod y rhan fwyaf o'n staff hefyd yn drigolion Rhondda Cynon Taf, mae'r dull cadarnhaol yma hefyd yn helpu i leihau cywilydd i'w teuluoedd a'u cymunedau yn ogystal â'n cwsmeriaid.

Mae nifer yr aelodau o'n rhwydwaith gweithwyr 'Perthyn', ein rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a Chynghreiriaid yn parhau i gynyddu. Nod y Cynghreiriaid yw chwalu rhwystrau a chefnogi cydweithwyr LGBT (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol) drwy fod yn glust i wrando a bod yn eiriolwr os oes angen. Yn ogystal â hynny maen nhw'n chwarae rhan i gefnogi a hyrwyddo 'Amser i Newid' gan annog staff i drafod iechyd meddwl.

Yn ddiweddar, sefydlon ni rwydwaith Anabledd a Chynhalwyr ar gyfer staff. Mae'r holl rwydweithiau yma yn hanfodol i gydweithwyr

gefnogi ei gilydd ac i ddeall materion penodol yn y gweithle a'r cymunedau sy'n dylanwadu arny'n nhw.

Cyflogau'r rhywiau

Rydyn ni'n parhau i sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor yn cael ei drin yn gydradd â'i gilydd trwy ein gwaith parhaus yn rhan o'r prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi ('WAVE').

Mae pob rheolwr yn cael hyfforddiant i'w helpu i gydnabod a dileu unrhyw ragfarn pan fyddan nhw'n penodi neu'n rhoi dyrchafiad i staff. Byddan nhw hefyd yn ymgymryd â rhaglen e-Ddysgu i atgyfnerthu'r hyfforddiant cychwynnol.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi bod yn siarad â'n staff sy'n ennill y cyflogau isaf ynglŷn â'r hyn sy'n eu rhwystro nhw rhag symud i swyddi graddfa uwch yn y Cyngor (yn eu barn nhw) a pha gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw. Yn sgîl y trafodaethau yma, cawson ni adborth pwysig ynglŷn â chefnogi staff sydd am symud ymlaen gan gynnwys cyfleoedd profiad gwaith a thrafodaethau datblygu rheolaidd. Bydd y gwaith yma'n parhau yn 2017/18.

Gwella ein trefniadau monitro fel y gallwn ni wirio bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth

Ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, rydyn ni'n ceisio sicrhau bod modd i'r Cyngor ddangos ei fod yn cyflwyno gwasanaethau cyfartal a theg i drigolion. Yn rhan o adolygiad blynyddol o'n holl wasanaethau, rydyn ni wedi llwyddo i ddangos yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a'r hyn y dylen ni ei wella. Rydyn ni wedi adrodd ar hyn yn ein **Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2015/16**. Rydyn ni'n gwybod bod rhagor o waith gyda ni i'w wneud a byddwn ni'n pennu ein dull gweithredu a'n mesuriadau o lwyddiant wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2017.

Rydyn ni hefyd yn canfod rhagor am ein gweithlu fel bod modd i ni ymateb yn well i'w hanghenion. O ganlyniad i arolwg staff, rydyn ni erbyn hyn yn gwybod y canlynol:

- cyfeiriadedd rhywiol 35% o'n gweithlu.
- crefydd / dim crefydd 48% o'n gweithlu.
- anabledd / dim anabledd 82% o'n gweithlu.
- ethnigrwydd 84% o'n gweithlu.

Byddwn ni'n parhau â'n gwaith i gynyddu'n gwybodaeth am ein gweithlu a'n dealltwriaeth ohono.

Beth fyddwn ni'n ei wneud y flwyddyn nesaf?

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol ar gyfer 2014-17 yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd. Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn ni'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â phobl ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018/22 newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf.

Yn y cyfamser, byddwn ni'n parhau i wneud y canlynol:

- monitro troseddau casineb a siarad â thrigolion am eu profiadau er mwyn ymateb i'w hanghenion yn effeithiol a nodi patrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y lefelau o iaith gas ac ymddygiad cas.
- deall ein staff a'n cyflawniad o wasanaethau yn well i sicrhau ein bod ni'n gallu adnabod bylchau ac arferion da.
- cynnal momentwm ein gwaith ym maes Iechyd Meddwl, gan gynnwys cyflwyno pecynnau e-Ddysgu Iechyd Meddwl a chynnal sesiynau 'Amser i Siarad' mewn Ysgolion Cyfun ledled Rhondda Cynon Taf.
- parhau i weithredu cynllun 'WAVE' gan ganolbwyntio'n benodol ar ein gweithwyr sy'n ennill y cyflogau isaf.

Mae rhagor o fanylion am ein gwaith a'n cynnydd yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a gafodd ei gyflwyno i gyfarfod o'r **Cabinet ym mis Mawrth 2017**.

Y GYMRAEG: Darparu gwasanaethau yn eich dewis iaith

Ers mis Ebrill 2016, mae pob Cyngor wedi gorfod cadw at set o reolau ynglŷn â'r ffordd maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg o fewn y Cyngorau ac yn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Mae'r rheolau yma, sef Safonau'r Gymraeg, yn berthnasol i bob maes o waith y Cyngor ac yn golygu y gall trigolion ledled Cymru ddisgwyl yr un agwedd tuag at gymhwysu'r Gymraeg mewn gwasanaethau ar draws y wlad.

Prif nod y rheolau yma yw:

- bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un modd â'r Saesneg yng Nghymru.
- bod Rhondda Cynon Taf a Chynghorau eraill yn rhoi cyfle i bobl gael eu gwasanaethu oddi wrthon ni, yn ogystal â'r rhai rydyn ni'n eu hariannu, yn Gymraeg.

Rhaid i Gynghorau ddilyn y rheolau yma sy'n effeithio ar bob maes o'n gwaith. Os nad ydyn ni'n cadw at y rheolau, mae'n bosibl y bydd rhaid i ni dalu cosb o £5,000 bob tro rydyn ni'n eu torri.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae gwasanaethau wedi bod yn rhoi prosesau newydd ar waith i ateb y gofynion, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n effeithio ar sut mae pethau'n gweithio o fewn y Cyngor, er enghraifft, sicrhau bod modd i staff gyrchu adnoddau cymorth iaith Gymraeg ar eu cyfrifiaduron, a rheolau fel sicrhau bod yr holl ddeunydd rydyn ni'n ei baratoi ar gael i drigolion yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft, gwefan y Cyngor, papurau Pwyllgor, Hysbysebion Swyddi a Chyfringau Cymdeithasol. Hyfforddi ein staff i ymdrin â chwsmeriaid yn Gymraeg, yn enwedig yn ein llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau'r celfyddydau a chanolfannau galw heibio.

Mae ein holl waith i sefydlu'r rheolau newydd yn cael ei integreiddio ym mlaenoriaethau a pholisïau ehangach y Cyngor, er enghraifft, y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** ar hyn o bryd, a **Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20** a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2016.

Serch hynny, mae rhai o'r rheolau yn fwy heriol na'i gilydd a rhaid i'r Cyngor a'r sefydliadau rydyn ni'n eu hariannu lynu wrthyn nhw. Erbyn hyn, mae dyletswydd gyfreithiol fwy o faint arnon ni i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf a hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy eang mewn modd gweithredol.

Mae siarad â thrigolion yn ein helpu ni i flaenoriaethu'r hyn sydd angen i ni'i wneud a chael canlyniadau mwy llwyddiannus. Yn 2016, gofynnwyd i drigolion beth fyddai'n eu hannog nhw i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau, yn eu barn nhw, yw'r rhai pwysicaf o ran hyrwyddo'r iaith. Cawson nhw eu gwahodd i nodi'r gweithgareddau a fyddai, yn eu barn nhw, yn cefnogi defnyddio'r iaith. O ganlyniad i'r hyn a ddywedon nhw ym mis **Tachwedd 2016**, mae'r Cyngor wedi cytuno i flaenoriaethu'r meysydd canlynol yn rhan o'i strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg dros y 5 mlynedd nesaf:

1. Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn-ysgol i addysg ôl-16 oed;
2. Gwella trosglwyddo iaith yn y cartref;
3. Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg;
4. Ymestyn cyfleoedd i blant, pobl ifainc a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn gweithgareddau hamdden;
5. Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Er mwyn inni lwyddo, rydyn ni'n cydnabod bydd rhaid i ni weithio gydag ystod o bartneriaid a fydd yn gallu ein helpu ni i gyflawni ein blaenoriaethau. Felly, rydyn ni wedi sicrhau bod ein swyddogion a'n Cyngorwyr yn rhan o Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf. Mae'r fforwm yn cynnwys grwpiau gwirfoddol, cyrff trydydd sector a chyrff sector cyhoeddus eraill sy'n chwarae rhan allweddol yn natblygiad y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n aelodau wedi bod yn rhan o'r gwaith yma ers degawdau ac mae hanes rhagorol gyda nhw o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

Mae ein blaenoriaethau hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfau eraill sydd hefyd wedi cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Mae'r deddfau yma'n cryfhau ymhellach yr hyn y mae angen inni ei wneud mewn perthynas â'r iaith Gymraeg fel Cyngor a hefyd mewn partneriaeth ag eraill.

Dyma nhw:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sydd wedi'i chrybwyll drwy gydol yr adroddiad yma. Mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod cenedlaethol - un ohonyn nhw yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
- **Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Mae'n nodi bod rhaid i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried y gwasanaethau gofal a chymorth maen nhw'n eu darparu ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg.

BIOAMRYWIAETH

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear ac mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r systemau naturiol sy'n eu cefnogi.

Daeth **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** i rym ym mis Mawrth 2016. Nod y ddeddf newydd yma yw diogelu ein hamgylchedd, yn ogystal â bodloni'r her o greu swyddi a chartrefi, iechyd ac addysg. Bydd hefyd yn helpu i wneud Cymru yn economi gwyrdd, carbon isel, sy'n barod i addasu i newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer ymagwedd fwy cydgyssylltiedig at reoli adnoddau naturiol megis y tir, dŵr, aer a bywyd gwylt. Mae hefyd yn golygu bod rhaid inni roi ystyriaeth i sut rydyn ni'n defnyddio'r adnoddau naturiol yma fel y byddan nhw ar gael yn y dyfodol. O ganlyniad i'r Ddeddf, bydd rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, ystyried bioamrywiaeth yn eu holl benderfyniadau a'u gweithredoedd. Mae'r gyfraith newydd yma'n gweithio ochr yn ochr â'r hyn y mae angen i ni ei wneud i wella Llesiant Amgylcheddol a chyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol yn Neddff **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** sydd wedi'i chrybwyll uchod.

Mae angen i'r Cyngor baratoi Cynllun sy'n nodi'r hyn y byddwn ni'n ei wneud i sicrhau ein bod ni'n ystyried bioamrywiaeth ac unwaith i ni gytuno ar hyn, bydd angen i ni adrodd am ein cynnydd i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid a'n trigolion i ddatblygu ein Cynllun newydd. Bydd hyn hefyd yn helpu staff i ddeall sut bydd y ddeddf newydd yma'n berthnasol i'n holl wasanaethau gwahanol. Rhaid i ni gyflwyno ein hadroddiad cyntaf ar ddiwedd 2019.

Diolch i drigolion lleol, rydyn ni eisoes yn gwybod llawer am fioamrywiaeth Rhondda Cynon Taf, ond mae bob amser rywbeth newydd i'w ddarganfod. Er enghraifft, mae'r **'Maerdy Monster'** yn filtroed a gafodd ei ddarganfod ar safle hen lofa yn y Maerdy sy'n gwbl newydd i wyddoniaeth, ac mae o leiaf 85 o wahanol rywogaethau o weny yn byw yn ein tomenni glo.

Sut rydyn ni'n gwranddo ar drigolion Rhondda Cynon Taf

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau â'n gwaith i sicrhau ei bod hi'n haws dod o hyd i wybodaeth am y Cyngor, a'i deall. Rydyn ni hefyd yn newid y ffordd rydyn ni'n siarad â thrigolion ac ymgysylltu â nhw yn eu cymunedau. Erbyn hyn, rydyn ni'n defnyddio dulliau wyneb yn wyneb yn hytrach nag arolygon ar-lein, yn enwedig gyda phobl sydd wedi bod yn anodd eu cyrraedd yn y gorffennol.

Cafodd y newidiadau yma eu cyflwyno fel bod Uwch Arweinwyr y Cyngor a'r Cynghorwyr yn y Cabinet yn fwy gweladwy, atebol a hygyrch i drigolion. Oherwydd hynny, roedd modd iddyn nhw glywed pryderon trigolion Rhondda Cynon Taf yn uniongyrchol, yn ogystal â'r heriau sy'n eu hwynebu nhw. Mae gan bobl farn gref ar eu cymunedau lleol a chysylltiadau cadarn â nhw ac rydyn ni wedi canfod bod hyn yn wir ar draws Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni wedi ymweld â llawer o leoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol, ac hefyd rydyn ni wedi defnyddio dull sy'n seiliedig ar fap i annog pobl i gymryd rhan a siarad am ble maen nhw'n byw.

Gan weithio gyda Chyngor Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Tân a sefydliadau trydydd sector, rydyn ni hefyd wedi casglu adborth gan drigolion ynglŷn â ble maen nhw'n byw ar draws rhanbarth Cwm Taf. Mae'r adborth yn ein helpu ni i ddeall y pethau da am gymunedau, yr hyn sydd fwyaf pwysig i bobl, yr hyn maen nhw o'r farn sy'n bwysig i'w hiechyd a'u llesiant, a'u syniadau i wneud pethau'n well. Mae'r wybodaeth yma'n cael ei defnyddio i roi cynlluniau ar waith ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu llunio a'u cyflwyno nawr, ac yn y dyfodol, yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid i gynnwys trigolion yn y materion sy'n effeithio arnyh nhw, ac mae ein 'Hwb' ymgysylltu yn helpu trigolion i ymateb i'n hymgyngoriadau ar-lein yn ogystal â'u galluogi i weld yn glir yr adroddiadau a'r camau sy'n deillio o'r arolygon yma. Fe gewch chithau weld yr Hwb yma: www.cwmtafhub.co.uk.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni fel Cyngor wedi gwneud y canlynol:

- parhau i sefydlu a chryfhau ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'n cymunedau. Er enghraifft, wrth bennu'n cyllideb, siaradon ni â 900 o bobl yn ystod ein tri achlysur 'Gofyn i'r Arweinydd', ein pum sioe deithiol canol y dref, ymweliadau ag wyth o'n canolfannau oriau dydd a saith canolfan hamdden, â'n hymweliadau â grwpiau pobl hŷn a phobl ifainc. Fe dderbynion ni hefyd dros 300 o ymatebion i'n hefelychyd cyllideb ar-lein.
- ei gwneud hi'n haws i bobl siarad â swyddogion a Chynghorwyr drwy gynnal rhagor o sioeau teithiol a darparu cyfleoedd i gynnal trafodaethau mewn achlysuron cymuned a gafodd eu cynnal mewn lleoliadau yn y gymuned, canol trefi a pharciau. Er enghraifft, wrth gynnal arolwg ar gŵn yn baeddu, siaradon ni â thros 1,600 o bobl mewn saith canol tref, dau ddeg o ysgolion, pum parc a phedair canolfan hamdden. Dywedodd pobl wrthon ni eu bod nhw am weld Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â chŵn yn baeddu. Cafodd y mesurau baw cŵn eu cymeradwyo gan y **Cabinet ym mis Mehefin** ac mae'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus bellach yn cael ei roi ar waith.
- defnyddio Hwb ymgynghori partneriaeth Cwm Taf i gynnal 15 arolwg gyda thrigolion RhCT, er enghraifft, fe dderbynion ni dros 550 o ymatebion i arolwg ar-lein mewn perthynas â ffioedd Maes Parcio.
- defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol i raddau mwy helaeth - @CwmTafConsult - i gyrraedd rhagor o'n trigolion drwy hyrwyddo achlysuron ac arolygon, ymateb i ymholiadau ein

trigolion a hefyd drwy aildrydar gweithgareddau'n partneriaid, er enghraifft, cyfarfodydd PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) a chyngor ar iechyd.

- sefydlu Fforwm Ieuenctid ar gyfer ardal RhCT i gyd, wedi'i gadeirio gan bobl ifainc. Rydyn ni'n gofyn i'r Fforwm Ieuenctid am ei farn ynglŷn â gwasanaethau Cyngor a materion cyllideb yn ogystal â phynciau mae'r bobl ifainc yn fwy cyfarwydd â nhw, sef iechyd meddwl, llesiant a'r defnydd o gyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol.
- datblygu cysylltiadau agosach gyda Fforymau Pobl Hŷn ar draws Rhondda Cynon Taf gan roi cyfle gwell iddyn nhw roi adborth ar faterion sy'n effeithio ar lesiant trigolion hŷn.

Rydyn ni'n parhau i groesawu adborth oddi wrth ein holl ffynonellau ac yn ddiolchgar i bobl sy'n rhoi eu barn a dweud wrthon ni beth rydyn ni'n ei wneud yn iawn a lle mae angen i ni wella. Rydyn ni hefyd yn gwerthfawrogi adborth ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol fel y gallwn ni flaenoriaethau meysydd i'w newid/gwella. **Edrychwch ar ein manylion cyswllt a chysylltu â ni.**

Mae gwranddo arnoch chi ac ymateb yn bwysig i ni. Rydyn ni'n gwybod bod ymgysylltu â chi yn uniongyrchol ac yn fwy aml yn golygu bydd modd i ni ddeall eich anghenion a'ch disgwyliadau yn well, er enghraifft, yn sgîl yr hyn a ddywedoch chi wrthon ni am ffioedd maes parcio, gostyngon ni ein ffioedd a darparu parcio am ddim yng nghanol rhai o'n trefi. Mae hyn hefyd yn golygu eich bod chi'n cael rhagor o wybodaeth am yr heriau a'r dewisiadau rydyn ni'n eu hwynebu a'r penderfyniadau mae rhaid i ni eu gwneud yn sgîl gostyngiadau yn ein cyllideb.

Rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud ac rydyn ni'n parhau i wella'r ffordd rydyn ni'n cwrdd a siarad â thrigolion fel bydd rhagor o gyfleoedd gyda ni i gynnal trafodaethau agored a gwneud llai o ddefnydd o holiaduron ffurfiol ac arolygon cymhleth. Yn 2017, rydyn ni'n bwriadu gwneud y canlynol:

- parhau i'w gwneud hi'n haws i'n trigolion siarad yn uniongyrchol â'n Huwch Reolwyr ac Aelodau etholedig yn eu cymunedau.
- ei gwneud hi'n haws i drigolion gymryd rhan a rhoi barn i'r Cyngor a'i bartneriaid am yr hyn maen nhw'n ei ofyn, a chanfod yr ymateb i'w sylwadau drwy **Hwb Ymgynghori Cwm Taf**.
- cynnal trafodaethau gyda thrigolion mewn modd amserol ynglŷn â chynigion sydd wedi'u cynllunio i newid gwasanaethau yn sylweddol.
- gwneud rhagor o ddefnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein trigolion, a chyfathrebu ac ymgynghori â nhw.
- rhoi dull 'rhwng cenedlaethau' ar brawf tuag at ymgysylltu â'n trigolion sy'n dod â'n pobl ifainc a'n pobl hŷn ynghyd fel bod y ddau grŵp yn deall yn well y materion sy'n effeithio ar ei gilydd.
- gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod ni'n cydlynio adnoddau yn well a defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei chael fel na fydd trigolion yn cael yr un cwestiynau (neu gwestiynau tebyg) gan bartneriaid gwahanol ac fel bydd modd i bartneriaid gwahanol ddefnyddio ymatebion perthnasol, priodol a dienw.